PRYDAU YSGOL AM DDIM I BOB PLENTYN
YSGOL GYNRADD, Y BLYNYDDOEDD
CYNNAR A'R CYNNIG GOFAL PLANT AC
ANGHYDRADDOLDEBAU

ADRODDIAD I'R GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Chwefror 2023





Adeiladu Cymru Iachach

Sefydlwyd Grŵp Cydlynu Creu Cymru Iachach yn 2019 i ddatblygu elfen atal Cymru Iachach – Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r grŵp amlasiantaethol, strategol hwn wedi'i ffurfio o uwch arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, i fynd y tu hwnt i'r hyn y gellid ei gyflawni gan y maes iechyd a gofal ar ei ben ei hun er mwyn sbarduno'r newid i atal a chyflawni Cymru iach a chynaliadwy. Sefydlodd grŵp gorchwyl a gorffen yn 2022 i ymgymryd â gwaith yr adroddiad hwn.

Awdur: Chris Emmerson ar ran Grŵp Gorchwyl a Gorffen Creu Cymru Iachach

© 2023 Grŵp Cydlynu Creu Cymru Iachach ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ceir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod Grŵp Cydlynu Creu Cymru Iachach ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint o ran y trefniant, y dyluniad a'r gosodiad argraffyddol yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN: 978-1-83766-099-5

CYNNWYS

Ffeithluniau **4**

01 Crynodeb gweithredol **10**

1.1 Trosolwg o'r prosiect 10

1.2 Targedu tuag at ddarpariaeth gyffredin: yr effaith ar anghydraddoldebau 11

1.3 Themâu trawsbynciol: beth sy'n ffurfio'r cyd-destun anghydraddoldebau? 11

1.4 Blaenoriaethau strategol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy weithredu 12

1.5 ETystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch o ran Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd 13

1.6 Tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch o ran darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar 14

1.7 Damcaniaethau Newid 15

1.8 Monitro a gwerthuso 16

1.9 Themâu lefel uchel ac argymhellion 17

02 Ein hymagwedd **20**

2.1 Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 21

2.2 Tystiolaeth 22

03 Y polisïau: trosolwg **24**

3.1 Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd 24

3.2 Gofal plant y blynyddoedd cynnar 25

3.3 Cyfleoedd a risgiau mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd 27

04 Materion trawsbynciol: beth sy'n ffurfio'r cyd-destun anghydraddoldebau? **28**

4.1 Yr 'argyfwng costau byw' 28

4.2 Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn systemau cymhleth 30

4.3 Anghydraddoldebau rhwng y rhywiau 31

05 Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd **32**

5.1 Tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch 32

5.2 Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, themâu lefel uchel 39

06 Gofal plant y blynyddoedd cynnar **46**

6.1 Tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch 46

6.2 Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, themâu lefel uchel 54

07 Damcaniaethau Newid **62**

7.1 Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd 63

7.2 Darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynna 64

08 Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd **66**

8.1 Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd 67

8.2 Darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar 68

09 Monitro a gwerthuso **70**

9.1 Dull 71

9.2 Canlyniadau 72

9.3 Dylunio gwerthusiad 73

9.4 Grwpiau cymharu a dylunio gwerthusiad 74

9.5 Data a chysylltu 74

10 Casgliadau **76**

11 Atodiad 1: Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a diolchiadau **78**

12 Cyfeiriadau **80**

Polisïau a ystyriwyd, **y cyd-destun a blaenoriaethau strategol** i fynd i'r afael â thegwch o ran gweithredu

Prydau Ysgol am Ddim

Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar

Polisïau

Cymru a'r Alban yw'r gwledydd cyntaf yn y DU i ymrwymo i brydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd

- **Medi 2022**
  Bydd pob disgybl dosbarth derbyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- **Ebrill 2023**
  Bydd mwyafrif y plant ym mlynyddoedd 1 a 2 yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim
- **Medi 2024**
  Bydd pryd ysgol am ddim ar gael i bob disgybl ysgol gynradd

Ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar fesul cam i gynnwys pob plentyn 2 flwydd oed, gyda phwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Bydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei hymestyn ar sail amddifadedd ardal, gan olygu y bydd **2,500** o blant ychwanegol yn cael eu cynnwys gydag oddeutu **625** yn gymwys i gael gofal plant o fis Medi 2022 ymlaen

Bydd y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ymestyn gynorthwyo rhieni "sydd mewn addysg neu hyfforddiant neu ar drothwy gwaith", a bydd y Cynnig ar gael i'r rhai hynny sydd mewn addysg neu hyfforddiant o fis Medi 2022 ymlaen

Cyd-destun

Roedd gan 23% (63,614) o blant ysgol gynradd yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn 2021

Amcangyfrifir y gallai hyd at 40,000 o blant oed ysgol gynradd fod yn byw mewn tlodi ond nad ydynt yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim ar hyn o bryd

Nid yw 13% o'r disgyblion sy'n gymwys ar hyn o bryd yn manteisio ar eu pryd ysgol am ddim

Y gyfradd ordewdra ymhlith plant 4-5 oed, 2018-2019:

20.9% cwintel lleiaf amddifad

30.2% cwintel mwyaf amddifad

2020-21:

Dechrau'n Deg

Derbyniodd 31,832 o blant wasanaeth ymwelydd iechyd gwell trwy Ddechrau'n Deg*

6,877 children aged 2-3 who were newly eligible accessed any childcare provision

Y Cynnig Gofal Plant

Fe'i darparwyd i 17,626 o blant

*Effeithiodd y pandemig COVID-19 ar 2020-21, gan arwain at newidiadau mawr i'r ffordd y cynigiwyd gwasanaethau

Yn 2019-20, dim ond 31% o rieni di-waith â phlentyn 0-4 oed oedd yn defnyddio gofal plant

Adroddodd 77% o'r lleoliadau gofal plant a arolygwyd yng Nghymru yn 2022 anawsterau recriwtio

Mae plant sy'n byw mewn amddifadedd yn sylweddol fwy tebygol o fod â **sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu tlotach** wrth ddechrau'r ysgol

Prydau Ysgol am Ddim

Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar

Gweithredu: blaenoriaethau strategol

Dylai cyffredinoledd cymesur arwain y broses gynllunio





Darpariaeth gyffredinol, sy'n ddwysach ar gyfer y rhai â'r anghenion mwyaf



Mae iechyd a lles presennol plant yn cael ei ystyried yr un mor bwysig o leiaf â'u hiechyd a'u lles pan fyddant yn oedolion



Dylai cydgynhyrchu fod yn ganolog i weithredu lleol

Mae darpariaeth o ansawdd uchel yn hanfodol

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen darpariaeth o ansawdd uchel i leihau anghydraddoldebau
- Mae canfyddiadau o ansawdd yn cynyddu defnydd
- Mae angen defnydd i greu buddion
- Osgoi stigma gwasanaeth gwael
- Mae'n rhaid i ansawdd gael ei ystyried yn fater nad yw'n agored i'w drafod



Themâu lefel uchel ac argymhellion i fynd i'r afael â thegwch o ran gweithredu

Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar

Mae ansawdd gofal cyson yn cael ei gynnal wrth i'r ddarpariaeth gynyddu



Ystyried yn ofalus sut y bydd ymestyn y ddarpariaeth yn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau mewn ardaloedd lle y ceir yr angen mwyaf

Ymdrechion cydlynol i gefnogi recriwtio a chadw, yn enwedig lle y ceir galw uchel am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Ymsefydlu arferion gwaith teg mewn lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar



Tegwch o ran y ddarpariaeth ac ymateb i anghenion lleol

Cyfathrebu clir a phroffil uchel ynglŷn â'r hyn sydd ar gael i rieni





Sicrhau bod lleoliadau gofal plant yn gallu cynorthwyo rhieni sy'n gweithio oriau ansafonol

Monitro proffil staff gofal plant fel bod y ddarpariaeth gofal plant yn adlewyrchu cymunedau lleol





Cynnwys cymunedau lleol wrth gydgynhyrchu ehangu'r ddarpariaeth gofal plant



Ystyried y cymorth y mae ei angen ar y rhai sydd ar incwm isel nad ydynt yn gymwys ar gyfer y cynnig gofal plant

Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar

Pontio rhwng gofal plant a'r ysgol yn darparu cysondeb

Cynnig A | Cynnig B | Cynnig C → Cynnig Ch

Archwilio opsiynau ar gyfer cynnig gofal plant unigol ac integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar i deuluoedd



Sicrhau bod gwahanol gynigion a darpariaeth ar gyfer gofal plant yn cydweithio a bod y rhai a allai elwa fwyaf ohonynt yn eu deall



Gwella cysylltiadau rhwng ysgolion a lleoliadau gofal plant

Mae rhieni'n teimlo bod gwasanaethau'n gefnogol ac yn ymatebol



Dylai cyfathrebu ynglŷn â darpariaeth a buddion, ac arweiniad i weithwyr proffesiynol, ddefnyddio diffiniadau clir a chyson nad ydynt yn stigmateiddio



Parhau i gefnogi'r 'Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy' er mwyn datblygu gwybodaeth, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad ynglŷn â byw'n iach



lleoliadau gofal plant i fapio a chael mynediad at rwydweithiau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol ac anffurfiol

Themâu lefel uchel ac argymhellion i fynd i'r afael â thegwch o ran gweithredu

Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd

Mae defnydd uchel yn hanfodol ac mae'n galw am ddarpariaeth gynhwysol o ansawdd uchel

Cynllunio cyfathrebu clir â rhieni ynglŷn ag argaeledd ac ansawdd prydau ysgol





Cynnal neu wella ansawdd y bwyd sydd ar gael

Cynnwys plant mewn cynllunio bwydlenni ac amserau bwyd





Sicrhau y darperir ar gyfer anghenion deietegol

Cysylltu darparu prydau ysgol ag addysgu a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyta'n iach





Monitro defnydd gan y rhai a oedd yn gymwys yn flaenorol a'r rhai sydd newydd ddod yn gymwys

Mae cyfleoedd i ymdeithasu a chwarae yn ganolog



Sicrhau bod disgyblion yn gallu bwyta mewn amgylchedd hamddenol a chymdeithasol



Sicrhau bod egwyliau cinio'n darparu digon o amser i fwyta cinio ac i chwarae

Dysgu o raglenni bwyd y tu allan i'r ysgol



Amlygu sut mae cynlluniau lleol wedi defnyddio gwybodaeth a rhwydweithiau lleol yn effeithiol

Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd

Mae darpariaeth gynaliadwy sy'n cefnogi ac yn adeiladu economïau sylfaenol yn gofyn am gynllunio ac ymrwymiad tymor hir



Cefnogi ymrwymiad tymor hir i economïau sylfaenol lleol i gyflenwi bwyd ar gyfer prydau ysgol



Amlygu a threialu modelau effeithiol o ymgysylltu ag economïau sylfaenol lleol

Ymsefydlu arferion awaith teg ym maes arlwyo ysgolion



Parhau i baratoi bwyd o fewn ysgolion er mwyn cefnogi arferion gwaith teg a darparu prydau ffres, iachus



Dylai arferion gwaith teg gael eu hymsefydlu mewn amgylcheddau arlwyo ysgolion

01 CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Trosolwg o'r prosiect

Cynhyrchwyd yr adroddiad er mwyn ymateb i gais gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Grŵp Cydlynu Creu Cymru Iachach i archwilio polisïau'r Rhaglen Lywodraethu ar ymestyn

- gofal plant y blynyddoedd cynnar a
- darparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd, er mwyn sicrhau nad yw'r polisïau hyn yn cynyddu anghydraddoldebau

Rydym wedi canolbwyntio ar risgiau a chyfleoedd mewn perthynas â gweithredu'r polisïau hyn. Nid ydym wedi ystyried costau cyfle mewn perthynas â pholisïau amgen.

Bydd y polisïau'n arwain at gynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd, sicrhau bod gofal plant ar gyfer plant 2-3 oed ar gael i bob teulu trwy gyflwyno'r rhaglen Dechrau'n Deg bresennol yn raddol a sicrhau bod y Cynnig Gofal Plant ar gael i deuluoedd lle mae'r rhieni mewn addysg neu ar drothwy cael gwaith.

Datblygom Ddamcaniaeth Newid ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer pob maes polisi. Mae'r rhain ar gael fel dogfennau ar wahân. Rydym wedi cyflwyno fersiwn integredig wedi'i symleiddio o'r ddamcaniaeth newid yn yr adran hon, a throsolwg manylach ar gyfer pob maes polisi yn Adran 8. Rydym hefyd wedi archwilio gofynion cychwynnol ar gyfer gwerthuso cadarn, a ddylai fod yn rhan allweddol o ddatblygu a gweithredu'r polisïau.



1.2 Targedu tuag at ddarpariaeth gyffredin: yr effaith ar anghydraddoldebau

Gallai cyffredinoli'r ddarpariaeth helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, trwy gynyddu cyrhaeddiad yr ymyriadau ymhlith grwpiau sydd mewn angen, mwy o ddylanwad ar systemau a phwyslais ar atal, gan 'symud y gromlin' i leihau anghydraddoldebau ar draws y graddiant cyfan a dileu stigma.

Mae perygl hefyd y gallai'r polisïau gynyddu anghydraddoldebau yn sgil ymestyn cymhwysedd, trwy gymryd adnoddau oddi ar y teuluoedd sydd â'r angen mwyaf a'u rhoi i'r rhai a allai dalu amdanynt. Mae darpariaeth gyffredinol yn peryglu cynyddu anghydraddoldebau trwy leihau'r pwyslais ar y rhai hynny â'r anghenion mwyaf a rhoi pwysau ar adnoddau presennol. Mae Adrannau 5 a 6 yr adroddiad hwn yn awgrymu argymhellion i liniaru hyn.

1.3 Themâu trawsbynciol: beth sy'n ffurfio'r cyd-destun anghydraddoldebau?

- **Yr argyfwng costau byw:** disgwylir i hyn leihau incwm gwario llawer o bobl sydd eisoes yn profi rhywfaint o amddifadedd, ond hefyd amharu ar ffyrdd o fyw a chreu ansicrwydd, yn enwedig o ran gwaith a gofal plant
- **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn systemau cymhleth:** mae dewisiadau ynglŷn â maeth a gofal plant yn digwydd o fewn systemau cymhleth
- **Anghydraddoldebau rhwng y rhywiau:** yn aml, mae anghydraddoldebau'n cael effaith anghymesur ar fenywod mewn ffyrdd sy'n berthnasol iawn i'r polisïau hyn

1.4 Blaenoriaethau strategol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy weithredu

Mae'r gwaith hwn wedi amlygu pwysigrwydd gweithredu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y polisïau wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chysoni gwaith i fynd i'r afael â gwahanol fathau o anghydraddoldebau. Rydym wedi amlygu pedair blaenoriaeth strategol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau wrth weithredu'r polisïau hyn:



- **Dylai cyffredinoledd cymesur arwain cynlluniog:**
  Gall sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn deg ac ar ddwysedd uwch i'r rhai sydd ag anghenion penodol (neu arbennig o uchel) gyflawni buddion argaeledd cyffredinol ar yr un pryd â pharhau i gynorthwyo'r rhai hynny â'r anghenion mwyaf

- **Mae darpariaeth o ansawdd uchel yn hanfodol:**
  Mae tystiolaeth ynglŷn â gofal plant a phrydau ysgol am ddim yn pwysleisio'n gyson bwysigrwydd ansawdd y ddarpariaeth. Dylai ansawdd gael ei ystyried yn fater 'nad yw'n agored i'w drafod'

- **Dylai cydgynhyrchu fod yn ganolog i weithredu lleol:**
  Dylai gweithredu lleol gefnogi cydgynhyrchu er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn cymryd cyfrifoldeb am y buddion a'u bod yn cael eu dosbarthu'n deg

- **Ystyrir bod iechyd a lles presennol plant yr un mor bwysig o leiaf â'u hiechyd a'u lles pan fyddant yn oedolion:**
  Mae deall plant fel unigolion sydd â'r hawl i gael eu lles presennol wedi'i ystyried, nid dim ond eu gallu i fod yn weithwyr iach ac addysgedig yn y dyfodol, yn egwyddor sy'n ganolog i bolisïau Llywodraeth Cymru. Mae lleihau anghydraddoldebau mewn lles plant yn awr yr un mor bwysig ag ystyried eu lles yn y dyfodol

Bydd gosod yr egwyddorion hyn wrth wraidd gweithredu yn hanfodol i effeithiolrwydd y polisïau hyn wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a pheidio â'u cynyddu.



Wrth ystyried anghydraddoldebau economaidd, awgrymodd tystiolaeth o werthuso Prydau Ysgol am Ddim i'r Holl Fabanod yn Lloegr fod y polisi hwnnw wedi cynyddu incwm oddeutu £20 y mis ar gyfer teulu â dau o blant mewn addysg gynradd.

1.5 Tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch o ran Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd

Wrth ystyried **anghydraddoldebau economaidd,** awgrymodd tystiolaeth o werthuso Prydau Ysgol am Ddim i'r Holl Fabanod yn Lloegr fod y polisi hwnnw wedi cynyddu incwm oddeutu £20 y mis ar gyfer teulu â dau o blant mewn addysg gynradd.

Mae'r trothwy presennol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gyfyngol. Mae nifer sylweddol o deuluoedd a fyddai'n elwa'n ariannol o Brydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd (UPFSM).

Mae perygl bod y polisi, trwy ddarparu prydau ysgol am ddim i'r rhai sy'n gallu talu ar hyn o bryd yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn gallu talu, yn cynyddu anghydraddoldebau economaidd rhwng y rhai nad ydynt mewn angen a'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Amcangyfrifir nad yw 13% o'r rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim ar hyn o bryd yn manteisio arnynt. Gallai cynyddu defnydd ymhlith y grŵp hwn liniaru neu leihau anghydraddoldebau economaidd.

Mae rhywfaint o dystiolaeth y gallai UPFSM gyfrannu at leihau **anghydraddoldebau iechyd,** yn enwedig ymhlith y rhai hynny sydd ychydig dros y trothwyon presennol. Mae hyn yn dibynnu ar gynnal darpariaeth a gwasanaeth o ansawdd uchel.

Mae rhywfaint o dystiolaeth y gallai UPFSM gyfrannu at leihau anghydraddoldebau o ran **cyrhaeddiad a phresenoldeb,** ond mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig yn y maes hwn.

Mae cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau **o fewn a rhwng cymunedau** os bydd caffael yn cefnogi cwmnïau a chadwyni cyflenwi lleol. Mae perygl cyfatebol y bydd yr angen i gynyddu darpariaeth yn gyflym yn rhoi mantais i sefydliadau mwy o faint a mwy canolog, gan wthio cyflenwyr bach allan.

Mae UPFSM yn darparu cyfleoedd i ymgorffori arferion gwaith teg mewn gweithleoedd arlwyo ysgolion, gan leihau **anghydraddoldebau o ran y gweithlu.** Mae'n bosibl y bydd hyn yn anodd ei gyflawni yng nghyd-destun ansicrwydd economaidd a chyfyngiadau cyllidol. Heb gymryd camau, gallai gweithredu arwain at newidiadau i amodau gwaith sy'n cynyddu anghydraddoldebau.

1.6 Tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch o ran darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar

Bydd y symudiad tuag at ddarpariaeth gyffredinol trwy ymestyn Dechrau'n Deg i'r 'ardaloedd mwyaf difreintiedig nesaf' yn sicrhau bod gofal plant ar gael i raddau mwy i deuluoedd sydd mewn angen ond nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar hyn o bryd. Bydd y Cynnig Gofal Plant yn sicrhau bod mwy o ofal plant ar gael i'r rhai hynny sydd â'r anghenion mwyaf ond nad ydynt yn gweithio, os ydynt yn bodloni'r diffiniadau o fod mewn addysg neu ar drothwy gwaith. Gallai hyn arwain at fuddion i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, ond trwy ddarparu adnoddau ar gyfer gofal plant i rai teuluoedd a allai dalu am y gwasanaethau hyn fel arall, fe allai'r effaith ar **anghydraddoldebau economaidd** fod yn anghyfartal.

Mae'r rhai hynny sy'n profi'r anghydraddoldebau mwyaf difrifol yn llai tebygol o fod yn cael at addysg ac fe allent fod ymhellach oddi wrth waith. Disgwylir i'r grŵp hwn gael llai o fudd o'r Cynnig Gofal Plant nag o Ddechrau'n Deg.

Mae gwerthusiadau o Ddechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant wedi awgrymu bod y rhai hynny sydd ar incwm is yn elwa mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau economaidd. Fodd bynnag, gallai darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar leihau anghydraddoldebau trwy roi cyfleoedd i rieni ddod o hyd i waith, neu gynyddu eu horiau neu gael swydd well. Gallai'r cyfleoedd hyn fod ar gael i raddau llai i rai grwpiau ac mewn rhai ardaloedd, ac maen nhw'n ddibynnol iawn ar yr economi ehangach.

Os caiff ei weithredu'n dda, mae ymestyn gofal plant y blynyddoedd cynnar yn darparu cyfleoedd i leihau **anghydraddoldebau iechyd** rhwng plant. Gallai gofal plant y blynyddoedd cynnar leihau anghydraddoldebau iechyd rhwng rhieni os ydynt yn profi amddifadedd neu'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Mae rhywfaint o dystiolaeth y bydd ymestyn gofal plant y blynyddoedd cynnar yn **lleihau anghydraddoldebau o ran datblygiad pan fydd plant yn dechrau'r ysgol, a chyrhaeddiad academaidd tymor hwy** rhwng plant.

Mae cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau rhwng y **gweithlu gofal plant** a gweithwyr mewn sectorau sy'n gofyn am gymwysterau a phrofiad cymharol neu lai o gymwysterau a phrofiad trwy wella cyflog, amodau, cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa a chydnabyddiaeth. Fodd bynnag, mae perygl hefyd y gallai ymestyn sector sydd eisoes yn profi problemau recriwtio a chadw gynyddu anghydraddoldebau trwy ofynion uwch a defnydd cynyddol o gontractau ansicr.



1.7 Damcaniaethau Newid

Methodoleg yw damcaniaeth newid sy'n diffinio nodau tymor hir ac yn mapio am yn ôl i amlygu rhagamodau angenrheidiol. Datblygwyd damcaniaethau newid ar gyfer y ddau bolisi, a rhoddir fersiwn wedi'i symleiddio isod.



Ffigur 1: Damcaniaethau Newid integredig wedi'u symleiddio ar gyfer y ddau bolisi

1.8 Monitro a gwerthuso

Mae trefniadau monitro a gwerthuso cadarn y darparwyd digon o adnoddau ar eu cyfer yn allweddol i asesu effaith y polisïau arloesol hyn â phroffil uchel. Mae UPFSM ac ymestyn gofal plant y blynyddoedd cynnar yn fuddsoddiad mawr gan Lywodraeth Cymru sy'n effeithio ar nifer sylweddol o blant a theuluoedd. Maen nhw'n golygu bod Cymru yn arwain y ffordd wrth lunio polisi prydau ysgol am ddim a gofal plant y blynyddoedd cynnar. Mae deall effaith yr ymyriadau hyn ar ganlyniadau plant ac anghydraddoldebau yn hanfodol i sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni'r buddion disgwyliedig.

Mae ein gwaith ar fonitro a gwerthuso wedi canolbwyntio ar amlygu:



- Modelau a dyluniadau a ddefnyddiwyd gan werthusiadau o raglenni tebyg
- Canlyniadau allweddol ar gyfer gwerthuso, yn seiliedig ar y Damcaniaethau Newid
- Data sy'n ofynnol ar ddefnydd
- Data perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd
- Data perthnasol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd

O ystyried cymhlethdod y rhaglenni a'r ystod o ganlyniadau, awgrymwn fod **Is-grŵp Monitro a Gwerthuso** yn cael ei ffurfio i gefnogi rhaglen werthuso Llywodraeth Cymru er mwyn gallu monitro effeithiau ar anghydraddoldebau iechyd.

Byddai'r is-grŵp hwn

- yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i bennu gofynion ar gyfer monitro effaith y polisïau ar anghydraddoldebau o ran canlyniadau a defnydd,
- yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddylunio gwerthusiad cymesur i ganfod sut a pham y cyflawnwyd cynnydd a gwersi a ddysgwyd er mwyn llywio camau gweithredu yn y dyfodol, a
- yn cysylltu â strwythur a threfniadau llywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli rhaglenni

Mae amlygu'r data sy'n ofynnol a gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau eu bod ar gael mewn ffordd amserol yn flaenoriaeth. Mae cynllunio data ar gyfer gwerthuso cyn gynted â phosibl yn y broses datblygu polisi yn debygol o gynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd casglu data i'r eithaf ar draws monitro a gwerthuso.

1.9 Themâu lefel uchel ac argymhellion

Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd

Themâu lefel uchel	Argymhellion
Mae defnydd uchel yn hanfodol ac mae'n galw am ddarpariaeth gynhwysol o ansawdd uchel	1. Cynnal ansawdd y bwyd sydd ar gael a'i wella, lle y bo'n bosibl 2. Sicrhau bod bwyd priodol ar gael i'r rhai hynny ag anghenion deietegol, gan gynnwys y rhai hynny ag anoddefiadau bwyd ac o gefndiroedd lleiafrifol 3. Monitro defnydd gan y rhai a oedd yn gymwys yn flaenorol a'r rhai sydd newydd ddod yn gymwys 4. Defnyddio dull ysgol gyfan, gan gysylltu darparu prydau ysgol ag addysgu a gweithgareddau iechyd a lles ehangach sy'n gysylltiedig â bwyta'n iach 5. Cynnwys plant mewn cynllunio bwydlenni ac amserau bwyd 6. Cynllunio cyfathrebu clir â rhieni ynglŷn ag argaeledd ac ansawdd prydau ysgol
Mae cyfleoedd i gymdeithasu a chwarae yn hollbwysig	7. Sicrhau bod egwyliau cinio'n darparu digon o amser i fwyta cinio ac i chwarae 8. Sicrhau bod yr amgylchedd cinio'n caniatáu i ddisgyblion fwyta mewn amgylchedd hamddenol a chymdeithasol
Dysgu o raglenni bwyd y tu allan i'r ysgol	9. Amlygu sut mae cynlluniau lleol wedi defnyddio gwybodaeth a rhwydweithiau lleol yn effeithiol
Mae darpariaeth gynaliadwy sy'n cefnogi ac yn adeiladu economïau sylfaenol lleol yn gofyn am gynllunio ac ymrwymiad tymor hir	10. Cefnogi ymrwymiad tymor hir i bartneriaethau a chynllunio mewn economïau sylfaenol lleol i gyflenwi bwyd ar gyfer prydau ysgol 11. Identify and pilot the most effective models of engagement with local foundational economies (e.g. anchor institutions; community wealth building)
Ymsefydlu arferion gwaith teg ym maes arlwyo ysgolion	12. Parhau i baratoi bwyd o fewn ysgolion er mwyn cefnogi arferion gwaith teg a darparu prydau ffres, iachus 13. Dylai arferion gwaith teg gael eu hymsefydlu mewn amgylcheddau arlwyo ysgolion trwy osod safonau contract, ymrwymo i gyfraddau fesul awr ar y cyflog byw gwirioneddol a chefnogi mwy o bŵer negodi i weithwyr trwy aelodaeth ag undeb a phartneriaeth gymdeithasol

Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar

Themâu lefel uchel	Argymhellion
Mae ansawdd gofal cyson yn cael ei gynnal wrth i'r ddarpariaeth gynyddu	14. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i sut y bydd ehangu'r ddarpariaeth yn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau mewn ardaloedd lle y ceir yr angen mwyaf 15. Mae'n bosibl y bydd angen ymdrechion cydlynol i gefnogi recriwtio a chadw yn yr ardaloedd hynny, yn enwedig lle y ceir galw uchel am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
Ymsefydlu arferion gwaith teg mewn lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar	16. Dylai arferion gwaith teg gael eu hymsefydlu mewn amgylcheddau gofal plant trwy osod safonau contract, ymrwymo i gyfraddau fesul awr sy'n adlewyrchu'r cyflog byw a chefnogi mwy o bŵer negodi i weithwyr trwy aelodaeth ag undeb a phartneriaeth gymdeithasol
Tegwch o ran y ddarpariaeth ac ymateb i anghenion lleol	17. Ystyried y cymorth y mae ei angen ar y rhai hynny ar incwm isel sydd ymhellach oddi wrth addysg a gwaith ac felly nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant 18. Cynnwys cymunedau lleol mewn cydgynhyrchu ehangu'r ddarpariaeth gofal plant, gan gynnwys trwy gymryd rhan mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant Awdurdodau Lleol 19. Sicrhau bod lleoliadau gofal plant yn gallu cynorthwyo teuluoedd lle mae'r rhieni'n gweithio oriau ansafonol 20. Monitro proffil staff gofal plant ac annog recriwtio o blith lleiafrifoedd ethnig fel bod y ddarpariaeth gofal plant yn adlewyrchu cymunedau lleol 21. Cyfathrebu clir a phroffil uchel ynglŷn â'r hyn sydd ar gael i rieni
Mae pontio rhwng gofal plant a'r ysgol yn darparu cysondeb	22. Sicrhau bod gwahanol gynigion a darpariaeth ar gyfer gofal plant y blynyddoedd cynnar yn cydweithio'n effeithiol a bod y rhai a allai elwa fwyaf ohonynt yn eu deall 23. Archwilio opsiynau ar gyfer cynnig gofal plant unigol ac integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar i deuluoedd 24. Gwella'r cysylltiadau rhwng lleoliadau gofal plant ac ysgolion, gan archwilio opsiynau fel templed cyffredinol ar gyfer cyfathrebu a throsglwyddo

Early Years Childcare

Themâu lefel uchel	Argymhellion
Mae staff a gwasanaethau sy'n gweithio ar draws y blynyddoedd cynnar yn gallu cynorthwyo plant i fod yn iach a chael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau iechyd a chymdeithasol priodol	25. Darparu offer a chymorth i weithwyr a lleoliadau gofal plant i fapio a chael mynediad at rwydweithiau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol ac anffurfiol fel presgripsiynu cymdeithasol gofal sylfaenol lleol 26. Parhau i gynorthwyo'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy i weithio gyda lleoliadau presennol a newydd er mwyn datblygu gwybodaeth, arweinyddiaeth ac ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau ynglŷn â byw'n iach
Mae rhieni'n teimlo bod gwasanaethau'n gefnogol ac yn ymatebol	27. Dylai cyfathrebu ynglŷn â darpariaeth a buddion gofal plant, ac arweiniad i weithwyr proffesiynol, ddefnyddio diffiniadau clir a chyson nad ydynt yn stigmateiddio a ddatblygwyd gyda rhanddeiliaid

Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Cynradd a Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar

Themâu lefel uchel	Argymhellion
Monitro a gwerthuso	28. Ffurfio 'Is-grŵp Monitro a Gwerthuso' i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen monitro a gwerthuso

02 EIN HYMAGWEDD



Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Creu Cymru Iachach er mwyn ymateb i'r cais gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i:

"archwilio ... cynnig y blynyddoedd cynnar a gofal plant, ac ymestyn prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, gan ganolbwyntio ar gyngor ystwyth i sicrhau nad ydym yn lledaenu anghydraddoldebau'n anfwriadol"

Amlygodd y cynllun a gytunwyd gyda'r Gweinidog ym mis Ionawr 20221 bedwar maes y byddai'r Grŵp yn cynorthwyo â nhw:

- Diffinio'r canlyniadau iechyd a thegwch sydd i'w cyflawni a'r dulliau sy'n ofynnol (trwy ymagwedd Damcaniaeth Newid)
- Cynghori ar sut i gynyddu buddion net y polisïau hyn i'r eithaf o ran tegwch iechyd (trwy ymagwedd Asesu'r Effaith ar Iechyd)
- Sicrhau bod y newidiadau polisi hyn yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n llawn er mwyn mesur yr effeithiau uchod
- Cymryd camau pendant i lywio a chefnogi'r broses o weithredu'r polisïau hyn trwy fanteisio ar arbenigedd sector a rhwydweithiau aelodaeth Creu Cymru Iachach

2.1 Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yr enwebwyd ei aelodau gan Grŵp Cydlynu Creu Cymru Iachach, i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae'r grŵp yn manteisio ar arbenigedd timau polisi yn Llywodraeth Cymru, sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli grwpiau yr effeithir arnynt yn arbennig, ac arbenigwyr o dimau iechyd y cyhoedd, gan gynnwys datblygiad ac addysg y blynyddoedd cynnar, maeth plant, polisi a gwerthuso. Rhestrir aelodau'r grŵp yn Atodiad 1.

Yn ogystal â'r adroddiad hwn, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi:



- Cynhyrchu Damcaniaeth Newid ac Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer y ddau faes polisi
- Archwilio'r gofynion cychwynnol ar gyfer gwerthuso cadarn, gan gynnwys cysylltu â thimau polisi a gwerthuso yn Llywodraeth Cymru, adolygu gwerthusiadau o bolisïau tebyg yn y Deyrnas Unedig, archwilio gofynion data ac ymgysylltu â phartneriaid academaidd
- Gweithio'n agos gyda thimau polisi Llywodraeth Cymru i gysoni ein gwaith ni â'u gwaith nhw. Mae hyn wedi cynnwys:
  - timau polisi'n cymryd rhan yn uniongyrchol yng ngwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen
  - ymgysylltu â thimau gwerthuso a dadansoddi i rannu gwybodaeth am argaeledd data a dulliau o ddylunio a nodi gwerthusiadau
  - cynhyrchu papur sy'n crynhoi'r dystiolaeth ynglŷn ag anghydraddoldebau yn ymwneud â chynlluniau ar gyfer cam cyntaf cyflwyno prydau ysgol am ddim i flynyddoedd babanod
  - rhannu drafftiau o waith wrth iddo ddatblygu, cyfarfod yn rheolaidd i rannu diweddariadau a chynnydd

2.2 Tystiolaeth

Mae dealltwriaeth rhanddeiliaid wedi bod yn ganolog i'r gwaith hwn. Yn ogystal â'r safbwyntiau a gynrychiolwyd yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, roedd yr Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid a sefydliadau cynrychioliadol ychwanegol. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1. Cawsom hefyd gyfle i ymweld ag ysgol a thrafod profiadau o giniawau ysgol gyda disgyblion cynradd a rheolwyr a staff arlwyo.

Casglwyd a choladwyd tystiolaeth hefyd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwerthusiadau ac ymchwil Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant
- Gwerthusiadau o Gychwyn Cadarn yn Lloegr
- Gwerthusiadau o weithredu Prydau Ysgol am Ddim i'r Holl Fabanod yn Lloegr a'r Alban
- Adroddiad cwmpasu gan wasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar effaith cymorth gwell gan ymwelwyr iechyd ar anghydraddoldebau
- Dau chwiliad llenyddiaeth a gynhaliwyd gan ymchwilwyr Llywodraeth Cymru ar dystiolaeth ynglŷn ag effaith prydau ysgol am ddim ar iechyd, buddion economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad ysgol
- Adroddiad cwmpasu gan wasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar effaith prydau ysgol am ddim ar anghydraddoldebau
- Arweiniad ac adolygiadau gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Cochrane, sef sefydliad annibynnol sy'n cyfosod tystiolaeth iechyd a gofal
- Adroddiadau ystadegol yn gysylltiedig ag iechyd, lles ac addysg plant yng Nghymru, gan gynnwys y rhai hynny a gynhyrchwyd trwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymchwil ac adroddiadau perthnasol a amlygwyd gan aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a chydweithwyr academaidd

Defnyddiwyd y Damcaniaethau Newid a ddatblygwyd ar gyfer pob polisi fel fframweithiau i goladu a dadansoddi'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gwaith hwn.



03 Y POLISÏAU: TROSOLWG

Disgrifiwyd y polisïau i ddechrau yn y Rhaglen Lywodraethu, fel y'i diweddarwyd ym mis Rhagfyr 2021 i adlewyrchu'r cytundeb cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a amlinellodd ymrwymiadau ar gyfer tymor y Senedd bresennol (2021-26). Mae'r ddau bolisi'n ymwneud ag ymestyn darpariaethau sydd wedi'u bwriadu ar hyn o bryd ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf fel eu bod ar gael i'r holl blant a theuluoedd.

3.1 Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd

Mae cynlluniau a gyhoeddwyd hyd at ac yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2022[2], a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf 2022, yn ymrwymo i:



- Ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd o fis Medi 2022 ymlaen, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r rhai hynny yn y dosbarth Derbyn
- Erbyn mis Ebrill 2023, bydd mwyafrif y plant ym mlynyddoedd 1 a 2 yn gymwys ar gyfer pryd ysgol am ddim hefyd
- Bydd gan bob disgybl ysgol gynradd yr hawl i gael pryd ysgol am ddim erbyn mis Medi 2024

Er mwyn rhoi cyd-destun, roedd gan 23% (63,614) o blant ysgol gynradd yr hawl i gael prydau ysgol am ddim ym mis Ebrill 2021[3].

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyhoeddi bwriad i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd (UPFSM), sy'n golygu Cymru a'r Alban fydd y gwledydd cyntaf i gynnig UPFSM yn y Deyrnas Unedig a dwy o blith nifer fach yn unig o wledydd ledled Ewrop. Gweithredodd Lloegr a'r Alban gynllun prydau ysgol am ddim i bob plentyn ym mlynyddoedd y babanod (derbyn, blynyddoedd 1 a 2: prydau ysgol am ddim i'r holl fabanod, UIFSM) yn 2014, ac estynnodd yr Alban y ddarpariaeth i'r holl rai hyd at yr hyn sy'n cyfateb i Flwyddyn 4 yn 2022.

3.2 Gofal plant y blynyddoedd cynnar

Mae dau bolisi sy'n ymwneud yn benodol â gofal plant y blynyddoedd cynnar:

- Ariannu gofal plant ar gyfer mwy o deuluoedd lle mae'r rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar drothwy gwaith
- Ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar fesul cam i gynnwys pob plentyn 2 flwydd oed, gyda phwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Bydd ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 2 flwydd oed yn digwydd trwy'r rhaglen Dechrau'n Deg bresennol ac rydym wedi ystyried y cyd-destun hwn drwy gydol ein gwaith.

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn caniatáu i rieni hawlio hyd at 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn. Mae ar gael i blant y mae pob rhiant yn yr aelwyd yn gweithio ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos o leiaf ar y lleiafswm cyflog perthnasol a llai na £100,000 y flwyddyn (fesul rhiant mewn aelwyd â dau riant).

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen y Blynyddoedd Cynnar sydd wedi'i bwriadu ar gyfer teuluoedd â phlant iau na 4 oed yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae elfennau craidd y rhaglen yn dod o amrywiaeth o opsiynau y dangoswyd eu bod yn dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gofal plant rhan-amser o ansawdd da ac wedi'i ariannu ar gyfer plant 2-3 oed am 12.5 awr yr wythnos, 39 wythnos o'r flwyddyn [a]
- Gwasanaeth ymwelydd iechyd gwell
- Mynediad at gymorth magu plant
- Cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei thargedu'n ddaearyddol, ar sail amddifadedd lefel ardal. Mae gan yr holl deuluoedd sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg yr hawl i gael gwasanaethau, ni waeth beth fo'u hincwm.

- Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn disgrifio ymestyn cymorth gofal plant i rieni "sydd mewn addysg a hyfforddiant neu ar drothwy gwaith", ac mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ehangu'r cynnig gofal plant
- Sicrhawyd bod y cynnig gofal plant ar gael i'r rhai hynny mewn addysg neu hyfforddiant o fis Medi 2022 ymlaen
- Bydd pob un o bedair elfen Dechrau'n Deg yn cael eu hymestyn o fis Medi 2022 ymlaen, gan olygu y bydd 2,500 o blant ychwanegol yn cael eu cynnwys, y bydd oddeutu 625 ohonynt yn gymwys i gael gofal plant, ar sail amddifadedd lefel ardal

[a] Gallai rhai sesiynau hefyd fod ar gael yn ystod yr haf ar sail a ddiffinnir yn lleol

Er mwyn rhoi cyd-destun, yn 2020-21:

Derbyniodd 31,832 o blant wasanaeth

wasanaeth ymwelydd iechyd gwell trwy Ddechrau'n Deg, sy'n cynrychioli **87.9%** o'r **36,215 o blant** y disgwylir iddynt dderbyn cymorth bob blwyddyn[4]





Roedd 6,877 o blant

2-3 a oedd newydd ddod yn gymwys wedi cael mynediad at ryw fath o ddarpariaeth gofal plant trwy'r rhaglen, sef **84%** o'r rhai a oedd yn gymwys[4]

Derbyniwyd 508 o leoedd

yn dilyn cynnig o gymorth magu plant strwythuredig ffurfiol, a chwblhaodd **353 (69%)** y cwrs. Derbyniwyd **1,394 o leoedd** yn dilyn cynnig o gymorth magu plant strwythuredig anffurfiol, ac fe'i cwblhawyd gan **1,108 (79%)**[4]





Sylwer bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar 2020-21

a arweiniodd at newidiadau sylweddol i'r ffordd y cynigiwyd gwasanaethau Dechrau'n Deg a gofynion casglu data. Roedd **mwy na 36,000** o blant wedi derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg ym mhob un o'r chwe blynedd blaenorol[4]

Yn ystod y cyfnod mis Medi 2020 i fis Awst 2021

darparwyd y Cynnig Gofal Plant i **17,626 o blant**[5]



3.3 Cyfleoedd a risgiau mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd

Mae'r polisïau ar ehangu prydau ysgol am ddim a gofal plant y blynyddoedd cynnar yn cynnwys cyfleoedd penodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau:

- **Sicrhau darpariaeth gynhwysol:** Gallai dulliau cyffredinol ddarparu mwy o gyfleoedd i ffurfio argaeledd y ddarpariaeth mewn ffyrdd tecach, yn enwedig sicrhau bod anghenion grwpiau agored i niwed yn cael eu bodloni
- **Mwy o gymorth i'r rhai hynny sydd ychydig dros y trothwy:** Mae trothwyon ac argaeledd presennol yn targedu'r rhai hynny sydd â'r angen mwyaf, ond nid yw nifer sylweddol o deuluoedd ag incwm isel ac anghenion uchel yn gymwys ar hyn o bryd i gael prydau ysgol am ddim neu ofal plant y blynyddoedd cynnar
- **'Symud y gromlin':** Gall dulliau cyffredinol fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws y boblogaeth gyfan, gan leihau anghydraddoldebau ar draws y graddiant cyfan, nid dim ond ym mhen eithaf angen
- **Atal:** Gall mynd i'r afael â systemau cymhleth 'yn eu cyfanrwydd' gynyddu cyfleoedd i amlygu a mynd i'r afael â dulliau ataliol i'r eithaf
- **Dileu stigma:** Gall darpariaeth gyffredinol ddileu stigma, gan leihau anghydraddoldebau o ran iechyd meddwl a lles. Er y gallai rhieni fod yn fwyaf agored i stigma, mae'r dystiolaeth yn dangos y gall plant ysgol gynradd hyd yn oed fod yn ymwybodol o bwy sy'n derbyn pryd ysgol am ddim

Mae nifer o risiau rhyng-gysylltiedig hefyd yn ymwneud ag anghydraddoldebau:

- **Dyrannu adnoddau'n llai effeithlon mewn perthynas ag angen:** Mae adnoddau y gellid eu defnyddio i gynorthwyo'r rhai hynny â'r angen mwyaf yn cael eu cyfeirio yn lle hynny at y rhai sy'n gallu talu (neu a fyddai'n gallu talu). Mae cyffredinoli'r ddarpariaeth yn golygu hepgor y buddion posibl a ddaw yn sgil targedu ychwanegol
- **Dyrannu adnoddau'n llai effeithiol i grwpiau ag anghenion penodol:** Gallai darpariaeth gyffredinol, trwy fynd i'r afael ag anghenion ar lefel y boblogaeth, ymyleiddio'r rhai hynny â'r anghenion mwyaf sy'n elwa fwyaf o ddarpariaeth benodol neu ddwysach
- **Gorymestyn adnoddau:** Gallai gweithredu'n gyflym arwain at wasanaethau o ansawdd is, gan effeithio'n anghymesur ar y rhai hynny â'r angen mwyaf, sydd â llai o ddewis o wasanaethau. Mae hyn yn broblem benodol mewn marchnadoedd llafur tynn sy'n adrodd am recriwio a chadw fel materion strategol

04 MATERION TRAWSBYNCIOL: BETH SY'N FFURFIO'R CYD-DESTUN ANGHYDRADDOLDEBAU?

Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, mae nifer o faterion wedi cael eu hamlygu sy'n diffinio sut mae anghydraddoldebau'n dod i'r amlwg, yn cael eu hymgorffori ac yn parhau o ran polisïau gofal plant y blynyddoedd cynnar a phrydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Mae'r materion hyn yn ffurfio anghydraddoldebau ar draws y cyd-destun economaidd a chymdeithasol y bydd y polisïau hyn yn cael eu gweithredu ynddo. Bydd angen i'r broses datblygu polisi ymgysylltu â'r materion hyn er mwyn osgoi cynyddu anghydraddoldebau'n anfwriadol ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn ffyrdd cyson ac effeithiol.



4.1 Yr 'argyfwng costau byw'

Mae'r cynnydd mewn costau byw yn ystod y 12 mis diwethaf wedi cael ei amlygu'n gyson fel argyfwng i lawer o bobl yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu mesurau i roi cymorth ariannol i'r rhai hynny sy'n profi'r caledi mwyaf[6]. Mae tystiolaeth fanwl o effeithiau penodol yr 'argyfwng costau byw' yn gyfyngedig o reidrwydd, ond amlygodd rhanddeiliaid ddwy effaith – prisiau sy'n codi (yn enwedig ar gyfer bwyd a thanwydd) ac incwm is – yn gyson fel rhai sy'n effeithio arnynt mewn ffyrdd sy'n ymwneud yn benodol â gofal plant a phrydau ysgol.

Mae byw ar incwm isel a phrofi iechyd a lles gwael o ganlyniad wedi bod yn realiti i lawer o blant a theuluoedd yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf, ac mae'r pandemig wedi dwysáu problemau i lawer o'r rhai mwyaf agored i niwed[7]. Mae'r heriau sy'n wynebu'r teuluoedd hyn wedi cael eu gwaethygu gan doriadau cyllid i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu elfennau pwysig o gymorth i breswylwyr sydd mewn angen[8]. Gallai polisïau ar ehangu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim a chymorth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar leihau anghydraddoldebau wrth i fwy o deuluoedd brofi'r effeithiau hyn.

Fodd bynnag, nododd ein gwaith gyda rhanddeiliaid hefyd fod yr argyfwng costau byw presennol yn golygu mwy nag 'incwm gwario is i fwy o bobl' yn unig. Nododd rhanddeiliaid fod costau cynyddol yn creu problemau penodol i'r rhai hynny sy'n byw gydag amddifadedd. Gall yr angen i roi sylw cyson i sut i fodloni anghenion dydd i ddydd sylfaenol, ac adolygu cyllidebu ar gyfer hanfodion fel bwyd a gofal plant yn aml, arwain at ganolbwyntio penderfyniadau fwyfwy ar y tymor byr. Er enghraifft, clywsom am deuluoedd yn adolygu prisiau bwyd mewn siopau gwahanol a newid eu harferion prynu'n rheolaidd ac yn gorfod newid trefniadau gofal plant er mwyn lleihau costau tanwydd.



Er mwyn bod yn effeithiol wrth gynorthwyo teuluoedd sy'n profi amddifadedd, mae'n rhaid i'r ddarpariaeth fod yn gynaliadwy a gallu bodloni anghenion teuluoedd y gallai eu hanghenion esblygu mewn sefyllfa economaidd anrhagweladwy

Mae'r ansicrwydd sy'n deillio o'r argyfwng costau byw yn amharu ar arferion dyddiol a ffyrdd o fyw, sy'n debygol o gael ei deimlo ddwysaf gan deuluoedd plant ifanc sy'n byw gydag amddifadedd, ac yn enwedig y rhai hynny mewn ardaloedd gwledig lle mae costau tanwydd yn cynrychioli cyfran fwy o'u treuliau. Gallai'r anghydraddoldebau hyn gynyddu dros y tymor canolig a'r tymor hir, wrth i benderfyniadau a lywiwyd gan anghenion dybryd i ddarparu hanfodion bywyd leihau cyfleoedd i gynllunio a buddsoddi mewn cyfleoedd i gynyddu incwm yn y tymor hir, fel addysg neu ddatblygu gyrfa. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod yr argyfwng costau byw hefyd yn cael ei deimlo ddwysaf ymhlith y rhai hynny sydd eisoes yn wynebu ansicrwydd yn gysylltiedig â chymhlethdod canfyddedig system fudd-daliadau'r Deyrnas Unedig, yn enwedig y rheolau ynglŷn â lleihau Credyd Cynhwysol os cynyddir oriau gwaith.

Mae'r dystiolaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd dyrannu adnoddau. Gallai teuluoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim a gofal plant ar hyn o bryd brofi cryn dipyn yn fwy o galedi tra bod adnoddau'n cael eu defnyddio i ddarparu'r buddion hyn i bobl lai anghenus. Yn ogystal, gallai problemau yn yr economi, ac yn y farchnad lafur yn enwedig, gael eu dwysáu gan yr argyfwng costau byw mewn ffyrdd sy'n gwneud y dull o leihau anghydraddoldebau economaidd trwy ofal plant (h.y. galluogi rhieni i dderbyn gwaith) yn llai effeithiol. Os bydd cyflogau'n parhau i godi ar lefel is na chwyddiant (sy'n fwy tebygol ar gyfer y rhai hynny sydd â swydd sy'n talu'n is[9]), gallai hyn leihau'r cymhellion i weithio a'r buddion economaidd i'r rhai sy'n gweithio.

Bydd angen i waith datblygu polisi ystyried effaith yr argyfwng costau byw ar y rhai sydd â'r angen mwyaf, yn enwedig y rhai sy'n elwa ar hyn o bryd a'r rhai sydd ychydig y tu allan i'r trothwyon presennol. Gallai'r grwpiau hyn wynebu caledi difrifol tra bod polisïau'n cynyddu'r adnoddau a ddarperir i bobl lai anghenus. Gallai'r grwpiau hyn hefyd brofi llai o allu i elwa o brydau ysgol am ddim a gofal plant y blynyddoedd cynnar, gan gynyddu anghydraddoldebau.

Mae'n bosibl y gallai'r budd a ddaw i'r grwpiau hyn fod yn llai o gymharu â'u hanghenion economaidd cynyddol, ac fe allent fod mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gallu elwa cystal o bolisïau gofal plant y blynyddoedd cynnar.

Mae ehangu cymhwysedd ar gyfer gofal plant a phrydau ysgol am ddim yn debygol o fod yn ffordd effeithiol o gynorthwyo teuluoedd sy'n delio â'r argyfwng costau byw i'r graddau y gall sicrhau bod adnoddau ar gael i'r teuluoedd mwyaf anghenus, ond mae'n eu galluogi i ddefnyddio'r adnoddau hynny i leihau ansicrwydd a chefnogi parhad.

Er mwyn bod yn effeithiol wrth gynorthwyo teuluoedd sy'n profi amddifadedd, mae'n rhaid i'r ddarpariaeth fod yn gynaliadwy a gallu bodloni anghenion teuluoedd y gallai eu hanghenion esblygu mewn sefyllfa economaidd anrhagweladwy.

Gallai teulu o leiafrif ethnig sy'n byw mewn ardal drefol a theulu ar incwm isel mewn ardal wledig Gymraeg ei hiaith yn bennaf gael profiadau, systemau cymorth a dewisiadau diwylliannol gwahanol iawn, a bydd y rhain yn arwain at effeithiau gwahanol ar anghydraddoldebau



4.2 Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn systemau cymhleth

Mae dewisiadau ynglŷn â maeth a gofal plant yn digwydd o fewn systemau cymhleth. Mae gwahanol fodelau, disgwyliadau a chyfyngiadau'n codi yn sgil dymuniadau personol, argaeledd adnoddau a'r gallu i ddefnyddio'r adnoddau hynny o ystyried gwahanol batrymau gweithio, treftadaeth ddiwylliannol a chrefyddol a rhwydweithiau gofal anffurfiol. Gallai teulu o leiafrif ethnig sy'n byw mewn ardal drefol a theulu ar incwm isel mewn ardal wledig Gymraeg ei hiaith yn bennaf gael profiadau, systemau cymorth a dewisiadau diwylliannol gwahanol iawn, a bydd y rhain yn arwain at effeithiau gwahanol ar anghydraddoldebau. Mae'r systemau hyn yn ddeinamig: gallent addasu a datblygu er mwyn ymateb i newidiadau i'r ddarpariaeth prydau ysgol neu ofal plant.

Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlygu, gallai anghydraddoldebau fodoli ar sawl ffurf. Gallai darparu prydau ysgol a gofal plant y blynyddoedd cynnar yn gyffredinol fod yn effeithiol ar draws y boblogaeth wrth leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol, ac fe allai hefyd gael effaith gadarnhaol trwy gynyddu cydlyniant cymdeithasol a lleihau rhwystrau rhag mynediad a brofir yn anghymesur gan y rhai hynny sy'n wynebu amddifadedd neu ymyleiddio. Fodd bynnag, mae perygl hefyd ar lefel uchel bod mynd i'r afael ag un anghydraddoldeb ar lefel y boblogaeth yn cynyddu anghydraddoldebau i grwpiau o fewn y boblogaeth honno, yn enwedig y rhai hynny sy'n wynebu nifer o anghydraddoldebau.

Mae symud o hawl wedi'i thargedu i hawl gyffredinol yn creu perygl y gallai'r ddarpariaeth sydd wedi esblygu i fodloni anghenion y rhai hynny ag anghenion uwch gael ei disodli gan ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion y mwyafrif sydd â llai o anghenion. Gallai ymagwedd gyffredinol gymesur, sy'n sicrhau bod y rhai hynny â'r anghenion mwyaf yn cael cymorth dwysach o fewn y ddarpariaeth ar gyfer y boblogaeth gyfan, fynd i'r afael â'r perygl hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ddeall anghenion y rhai hynny sy'n wynebu anghydraddoldebau penodol ac effeithiau polisïau ar y systemau cymhleth sy'n diffinio eu hanghenion a'u dewisiadau.

Mae deall y systemau cymhleth hyn yn hanfodol i amlygu effeithiau anfwriadol ar anghydraddoldebau, ond nid yw'n ddigonol i reoli'r effeithiau hynny. Mae dealltwriaeth glir o'r amcanion polisi yr un mor bwysig er mwyn helpu i ddatrys tensiynau ar draws anghydraddoldebau amlweddog. Mae gan Ddechrau'n Deg[10] a'r Cynnig Gofal Plant[11] amcanion hen sefydledig ac mae datganiad hefyd wedi cael ei amlinellu ynglŷn â nodau trosfwaol ymestyn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim[12]. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhain yn disgrifio'n fanwl pa anghydraddoldebau sydd i dderbyn sylw neu eu blaenoriaethu.

Er mwyn cynyddu'r potensial i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau i'r eithaf, mae'n hanfodol bod amcanion clir a manwl yn cael eu sefydlu'n ffurfiol ar gyfer pob maes polisi, a bod y rhain yn cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn gysylltiedig â chynlluniau monitro a gwerthuso.

Mae hefyd yn bwysig bod y broses datblygu polisi'n cydnabod ac yn adlewyrchu cymhlethdodau'r systemau y bydd polisïau'n cael eu gweithredu ynddynt. Bydd dull cydgynhyrchu gyda chymunedau lleol yn cefnogi gweithredu'n effeithiol.

4.3 Anghydraddoldebau rhwng y rhywiau

Rydym wedi ystyried yr anghydraddoldebau sy'n wynebu ystod eang o grwpiau y mae'r polisïau'n effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai hynny sy'n byw gydag amddifadedd neu ymyleiddio, y rhai hynny mewn lleoliadau daearyddol gwahanol a'r gweithlu a fydd yn cyflawni'r polisïau. Rydym hefyd wedi nodi croestoriadedd, sy'n golygu y gallai'r rhai hynny sy'n profi nifer o anghydraddoldebau gael mantais anghymesur neu wynebu rhwystrau ychwanegol rhag defnyddio'r ddarpariaeth.

Ym mhob grŵp, mae anghydraddoldebau'n cael effaith anghymesur ar fenywod yn aml. Roedd teuluoedd unig riant yng Nghymru chwe gwaith yn fwy tebygol o gael eu harwain gan fenyw na dyn yn 2018[13], mae 8 menyw am bob dyn sy'n gweithio mewn lleoliad gofal plant cyffredin ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Nghymru[14], mae menywod yn anghymesur o debygol o adael y gweithlu i ofalu am blant ifanc[15].

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu uchelgais i Gymru fod yn arweinydd byd o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau, a ddiffinnir fel rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal[16]. Mae ymestyn gofal plant y blynyddoedd cynnar wedi cael ei amlygu fel dull pwysig o gyflawni hyn, ac mae modelau o wledydd eraill yn awgrymu bod darparu gofal plant cyffredinol yn lleihau'r anghydraddoldebau y mae menywod yn eu profi o ran cyfleoedd a phŵer ar draws cymdeithas, nid dim ond gwahaniaethau mewn incwm[15].

Dangosodd y dystiolaeth gan randdeiliaid yn arbennig fod yr anghydraddoldebau yr oedd menywod yn eu hwynebu yn gysylltiedig mewn ffyrdd a oedd yn anaml yn wir am ddynion. Roedd y cyfrifoldeb am gyllidebu a chynllunio prydau bwyd ar gyfer y teulu yn fwy tebygol o gael ei ysgwyddo gan fenywod, mae menywod yn gyfrifol yn anghymesur am ofal plant os yw hynny'n gyfyngedig neu os nad yw ar gael, ond felly hefyd trefnu gwaith o amgylch gofal plant, gan gynnwys negodi oriau a threfnu codi a chasglu.

Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynyddu'r straen y gall tlodi ei achosi eisoes trwy drefnu (ac aildrefnu) bywyd pob dydd i gydbwyso amser ac arian cyfyngedig yn ddyddiol yn wyneb ansicrwydd cyson, ac nid yw'n gadael llawer o amser ar gyfer gorffwys, cymdeithasu a gweithgareddau hybu iechyd fel ymarfer corff. Felly, mae'r cyfrifoldebau sy'n wynebu menywod i raddau anghymesur yn cynyddu'r profiadau o anghydraddoldeb economaidd ac iechyd.

Pan fydd mwy o ddarpariaeth gofal plant ar gael i fenywod sy'n ceisio gwaith, gallai'r gwaith a gânt fod ym maes gofal plant neu arlwyo ysgolion, sy'n cynnig cyfran gymharol uchel o swyddi â meini prawf mynediad isel a hyblygrwydd. Fodd bynnag, mae problemau hirsefydlog yn y sectorau hyn hefyd o ran cyflog isel a chamu ymlaen mewn gyrfa[17,18]. Mae'n bosibl na fydd y 'rhyddid' o gyfrifoldebau gofal plant yn cyfrannu llawer at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a lles os yw'r cyfrifoldebau hynny'n cael eu disodli'n llwyr gan swydd sy'n cynhyrchu ei straen ei hun.

Mae'r polisïau hyn yn gyfle sylweddol i leihau anghydraddoldebau a brofir yn anghymesur gan fenywod yng Nghymru, yn enwedig oherwydd gallent fynd i'r afael â ffyrdd y mae anghydraddoldebau'n ffurfio clwstwr ac yn cysylltu i greu trywydd ar gyfer bywydau menywod fel rhieni a gweithwyr. Fodd bynnag, gallai pwyslais cul ar anghydraddoldebau guddio'r darlun mwy ac efallai cynyddu anghydraddoldebau i fenywod hyd yn oed wrth fynd i'r afael â materion ar gyfer grwpiau a ddiffinnir yn fwy pendant.

Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau penodol a brofir gan fenywod, mae'n rhaid i'r broses weithredu ystyried sut mae gwahanol agweddau ar fywydau menywod wedi'u cysylltu trwy wahanol rolau a sicrhau bod anghenion yn derbyn sylw mewn ffordd gyfannol.

05 PRYDAU YSGOL AM DDIM I BOB PLENTYN YSGOL GYNRADD

5.1 Tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch

At ei gilydd, roedd gwaith ymchwil, gwerthusiadau a thystiolaeth gan randdeiliaid yn cytuno'n gryf y gallai ymestyn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd leihau anghydraddoldebau, yn enwedig ymhlith y rhai hynny sy'n profi incwm isel ac amddifadedd.



Maen nhw'n debygol o fod yn arbennig o fuddiol i'r rhai hynny sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd ond y mae eu hincwm yn uwch na'r trothwy presennol. Mae rhai buddion i'r rhai sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd a gallai'r rhain gynyddu os bydd defnydd yn cynyddu. Mae rhai grwpiau, gan gynnwys y rhai hynny sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus, yn debygol o elwa'n fawr. Mae risgiau y gallai rhai grwpiau, gan gynnwys y rhai hynny o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a'r rhai hynny ag anghenion deietegol arbennig, brofi mwy o anghydraddoldebau.

Mae tystiolaeth ynglŷn â lleihau anghydraddoldebau economaidd yn awgrymu y byddai'r rhai hynny sydd ychydig dros y trothwy presennol yn elwa fwyaf, oherwydd disgwylir i'r arbedion ariannol (y mae gwerthusiad o UIFSM yn Lloegr yn amcangyfrif y byddent yn £20 y mis i deulu â dau blentyn oed ysgol gynradd yn ystod tymor yr ysgol[19]) fod o fudd anghymesur i'r rhai hynny â'r anghenion mwyaf. Gallai anghydraddoldebau economaidd gynyddu ar gyfer y rhai hynny sydd â hawl eisoes, wrth i deuluoedd mwy cefnog ennill. Fodd bynnag, amcangyfrifir nad yw 13% o'r plant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd[20] yn manteisio ar y cynnig, sy'n amlygu'r potensial i'r polisi leihau anghydraddoldebau economaidd os gall gweithredu leihau'r gyfran hon.

Mae rhywfaint o dystiolaeth o leihau anghydraddoldebau o ran presenoldeb a chyrhaeddiad academaidd, ac mae gwerthuso'n bwysig i gadarnhau bod y rhain yn cael eu cyflawni yng Nghymru. Mae rhywfaint o dystiolaeth o leihau anghydraddoldebau o ran iechyd plant, ond mae hyn yn dibynnu'n fawr ar ansawdd bwyd a defnydd, a allai fod yn anodd ei fesur. Mae cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau trwy annog trefniadau caffael lleol, ond mae'r rhain yn debygol o ddibynnu ar fanteisio i'r eithaf ar rym gwario lleol, cynllunio tymor hir a chysylltiadau effeithiol â pholisïau cenedlaethol ynglŷn â'r economi sylfaenol. Mae cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau rhwng y gweithlu arlwyo mewn ysgolion a sectorau eraill, ond bydd hyn yn dibynnu ar i ba raddau y gellir ymsefydlu arferion gwaith teg yn gyson ar draws y sector.

Amlinellir isod anghydraddoldebau penodol, crynodeb o'r dystiolaeth ynglŷn â'r berthynas rhwng UPFSM â'r anghydraddoldebau hynny ac asesiad o effaith y polisi.

5.1.1 Anghydraddoldebau economaidd rhwng teuluoedd

Er bod gan 23% (63,614) o blant ysgol gynradd yr hawl i gael prydau ysgol am ddim ym mis Ebrill 20213, mae modelu wedi awgrymu bod hyd at 40,000 yn fwy o blant ysgol gynradd mewn tlodi (h.y. mae incwm y teulu'n llai na 60% o'r canolrif) ond nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd[21]. Mae tystiolaeth fod diffyg diogeledd bwyd yn cynyddu yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer teuluoedd mewn tlodi sydd â phlant iau[22]. Amcangyfrifir nad yw 13% o'r plant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru ar hyn o bryd yn manteisio ar y cynnig[20].

Awgrymodd gwerthusiad o UIFSM yn Lloegr y byddai teulu â dau blentyn oed ysgol gynradd a ddeuai'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn arbed tua £20 y mis yn ystod tymor yr ysgol[19].

Mae'r costau i'r rhai sy'n talu am brydau yn amrywio yn ôl awdurdod lleol ac mae perygl y gallai'r rhain gynyddu yn y tymor byr ac efallai dros gyfnod hwy. Mae'r polisi'n debygol o leihau anghydraddoldebau daearyddol ac mae ei effaith yn debygol o liniaru effaith codiadau mewn prisiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw presennol. Mae hyn yn tybio bod y cyllid yn ddigonol. Yn aml, y rhai hynny sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n profi'r lefelau uchaf o dlodi a disgwylir iddynt elwa'n arbennig o'r polisi hwn.

Disgwylir i UPFSM gael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldebau rhwng y rhai hynny sy'n profi amddifadedd ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a'r rhai hynny nad ydynt yn profi amddifadedd.

Bydd y polisi'n sicrhau bod prydau ysgol am ddim ar gael i nifer fawr o deuluoedd sy'n gallu fforddio talu am brydau. Ni fydd teuluoedd eraill yn elwa (teuluoedd disgyblion mewn blynyddoedd ysgol gynradd a gynhwyswyd yn ddiweddarach yn y cyfnod gweithredu yn y tymor byr a disgyblion ysgol uwchradd yn y tymor hir). **Gallai UPFSM gynyddu anghydraddoldebau rhwng y rhai hynny sy'n profi amddifadedd ac sy'n gymwys ar hyn o bryd a'r rhai hynny nad ydynt.**

Dangosodd gwerthusiad o UIFSM yn Lloegr gynnydd bach iawn yn unig mewn defnydd ymhlith y rhai hynny sy'n gymwys ar hyn o bryd ond nad ydynt yn derbyn pryd o fwyd[19]. Fodd bynnag, o ystyried y gyfran sydd â hawl ar hyn o bryd, ond nad ydynt yn manteisio ar bryd ysgol am ddim, fe allai fod cyfle hefyd i leihau anghydraddoldebau trwy gynyddu defnydd ymhlith y grŵp hwn.

Nid yw'n glir y byddai'r rhai mwyaf anghenus yn elwa o UPFSM i raddau mwy nag ydynt o dan y system bresennol. **Dylai cynyddu defnydd ymhlith y rhai hynny sy'n gymwys ar hyn o bryd ar sail incwm yn unig, ond nad ydynt yn derbyn pryd o fwyd, fod yn faes i ganolbwyntio arno.**

Fodd bynnag, mae'r buddion eraill sy'n gysylltiedig â gweithredu UPFSM o ansawdd uchel fel gwasanaeth cyffredinol yn awgrymu y gallai'r perygl o rywfaint o gynnydd mewn anghydraddoldebau perthynol economaidd gael ei gydbwyso gan lai o anghydraddoldebau mewn meysydd eraill, o leiaf o ran plant ysgol gynradd. Mae lleihau stigma, dileu rhwystrau rhag mynediad a brofir yn anghymesur gan grwpiau dan anfantais a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol oll yn enghreifftiau o'r buddion aneconomaidd hyn.

5.1.2 Anghydraddoldebau o ran iechyd a lles rhwng plant a theuluoedd

Mae UPFSM yn cynnig cyfle i gynyddu nifer y plant sy'n derbyn pryd o fwyd maethlon, poeth. Felly, disgwylir i ehangu UPFSM wella maeth ar draws plant ysgol gynradd, ac felly gwella iechyd. Amlygwyd yn gyson yn y llenyddiaeth a chan randdeiliaid bod ansawdd y bwyd a ddarperir yn ganolog i gyflawni buddion iechyd, yn enwedig i'r rhai hynny sy'n byw gydag amddifadedd[19,23,24].

Yn nodweddiadol, dim ond nifer fach iawn o giniawau pecyn (llai na 2%) sy'n bodloni'r holl ganllawiau ar gyfer bwyta'n iach[25]. Mae'r canllawiau ar gyfer prydau ysgol a maeth yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd. Awgrymodd y gwerthusiad o'r cynllun peilot UIFSM yn Lloegr fod cyffredinoli cymhwysedd yn gysylltiedig â maeth gwell ymhlith y rhai hynny a oedd newydd ddod yn gymwys[26].

O ran iechyd plant ysgol gynradd, mae'r dystiolaeth fwyaf eglur sy'n gysylltiedig â maeth yn ymwneud â gordewdra, sy'n dangos graddiant yn ôl amddifadedd ar 4-5 oed yng Nghymru, gyda chyfradd o 20.9% yn y cwintel lleiaf amddifad a 30.2% yn y mwyaf amddifad yn 2018-1927. Mae'r cyfraddau hyn yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd cynradd.

Awgrymodd y gwerthusiad o UIFSM yn Lloegr ei fod wedi lleihau anghydraddoldebau o ran gordewdra rhwng yr ail gwintel mwyaf amddifad a'r lleiaf amddifad (sy'n debygol o fod y rhai a oedd â'r angen mwyaf ond nad oeddent yn gymwys)[23]. Fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth ynglŷn ag effeithiau iechyd tymor hir, a allai gymryd flynyddoedd lawer i ddod i'r amlwg.

Mae tystiolaeth o Loegr a'r Alban yn awgrymu bod gweithredu UIFSM wedi gwella maeth, gan fod ciniawau pecyn â chynnwys maethol cymharol isel wedi'u disodli â phrydau ysgol iachach, a bod y gwelliant hwn o ran maeth amser cinio yn fwy amlwg ymhlith plant o deuluoedd incwm is[24].

Ceir ansicrwydd ynglŷn ag i ba raddau y mae darparu pryd o fwyd mwy iachus yn newid patrymau bwyta ar adegau eraill yn ystod y dydd. Amlygodd rhanddeiliaid fod perygl y gallai plant, yn enwedig y rhai hynny mewn teuluoedd sy'n byw gydag amddifadedd, fod yn llai tebygol o gael pryd wedi'i goginio gyda'r nos a/neu y gallent fwyta bwyd afiach (e.e. creision mewn cinio pecyn) ar adeg arall. Ni welwyd tystiolaeth o ostyngiad mewn prydau bwyd y tu allan i'r ysgol; awgrymodd y gwerthusiad o UIFSM yn Lloegr a'r Alban ostyngiad cyffredinol yn y braster a geir o fyrbrydau afiach, yn enwedig ymhlith y rhai hynny sy'n byw gydag amddifadedd, ond dim newid mewn faint o siwgr a gymerir yn gyffredinol neu faint o ffrwythau a llysiau a fwyteir[24].

Awgrymir y gallai prydau ysgol iachach gynorthwyo teuluoedd i fwyta'n iachach. Nid oedd tystiolaeth glir o hyn, ond mae'r canfyddiadau ynglŷn â newidiadau mewn arferion bwyta plant[24] yn awgrymu bod hyn wedi digwydd i raddau cyfyngedig yn unig mewn ardaloedd eraill.

Cafwyd cryn drafodaeth ymysg y rhanddeiliaid ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng bwyd a ddewisir gan wahanol grwpiau o blant, yn enwedig y rhai sy'n byw gydag amddifadedd. Ystyriwyd bod prydau ysgol yn gyfle pwysig i ganiatáu i blant sydd â mynediad cyfyngedig at fwyd iachus y tu allan i'r ysgol ddatblygu hoffterau ehangach a mwy iachus.

Ni allem weld unrhyw dystiolaeth yn y llenyddiaeth ynglŷn â gwahaniaethau o ran dewis prydau neu fwyta prydau rhwng gwahanol grwpiau o blant. Dywedodd y staff arlwyo y siaradasom â nhw fod y plant hyn yn fwy tebygol o wrthod eitemau bwyd yr oeddent yn ymddangos yn anghyfarwydd â nhw, yn enwedig eitemau iachach. Dywedasant hefyd eu bod weithiau'n gallu annog plant i wneud dewisiadau iachach a/neu roi 'hoff' eitemau a chyfuniadau o'r neilltu ar gyfer y plant hyn. Roedd pryder y byddai hyn yn mynd yn anoddach yn sgil cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn prydau, gan ddileu cyfle i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mynegwyd pryderon hefyd gan randdeiliaid, gan gynnwys plant eu hunain, ynglŷn â maint dognau, sy'n cael ei osod yn ôl canllawiau fel arfer ac nad yw'n gwahaniaethu rhwng plant â gwahanol anghenion neu blant o oedrannau gwahanol. Unwaith eto, mae'n bosibl y gallai gweithredu'r polisi leihau gallu staff arlwyo i ddeall a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

Disgwylir i'r gostyngiad mewn stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim â phrawf modd wella iechyd meddwl plant a rhieni. Disgrifir effaith y stigma hwn yn dda mewn llenyddiaeth ymchwil[28], ond mae'n anodd ei meintioli.

Dywedodd rhanddeiliaid y gallai ymagweddau 'ysgol gyfan' at fwyta'n iach ddatblygu dealltwriaeth ehangach o faeth, sgiliau bwyd a materion ehangach fel cynaliadwyedd. Gallai gweithredu UPFSM gynnig cyfleoedd i wella'r negeseuon a roddir am fwyta'n iach.

Cyfeiriodd randdeiliaid at y prosiect 'Bocs Bwyd Mawr'[29] fel enghraifft o sut oedd hyn wedi cael ei wneud yn effeithiol. Nodwyd hefyd y gallai'r Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru a gweithredu'r cwricwlwm newydd ddarparu cyfleoedd i gysylltu UPFSM â bwyta'n iachach. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder hefyd y gallai plant deimlo y disgwylir iddynt ddadlau o blaid bwyta'n iach mewn teuluoedd sy'n cael trafferth fforddio bwyd o ansawdd da, gan gynyddu eu straen.



Disgwylir i UPFSM wella canlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig â maeth, yn enwedig ymhlith y rhai â'r angen mwyaf ond nad oeddent yn gymwys yn flaenorol. Fodd bynnag, gallai'r buddion fod yn amlwg ar bwyntiau penodol yn y dosbarthiad anghydraddoldebau (e.e. rhwng yr ail gwintel amddifadedd o'r gwaelod a'r cwintel uchaf) a allai fod yn anodd eu hamlygu gyda mesurau safonol. Gallai'r canlyniadau pwysicaf o ran maeth ac iechyd gymryd amser hir i ddod i'r amlwg ac fe allai fod yn anodd eu cysylltu'n uniongyrchol â'r polisi.

Mae rhai risgiau y gallai UPFSM amharu ar y perthnasoedd presennol rhwng staff arlwyo a disgyblion oherwydd niferoedd uchel o ddisgyblion ychwanegol sydd newydd ddod yn gymwys, ac y gallai hynny gynyddu anghydraddoldebau.

5.1.3 Anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad academaidd a phresenoldeb rhwng plant

Mae gan bresenoldeb ysgol mewn addysg gynradd gysylltiad negyddol ag amddifadedd, er nad yw'r berthynas yn syml, ac fe'i nodweddir gan niferoedd cymharol fach o ddisgyblion sy'n absennol yn barhaus[30].

Nid yw'n glir sut gallai prydau ysgol am ddim wella presenoldeb a chyrhaeddiad academaidd. Tybir y bydd darpariaeth am ddim yn cymell rhieni i anfon plant i'r ysgol, y bydd lefelau absenoldeb is yn gwella cyrhaeddiad ac y gallai'r ffaith bod plant yn teimlo'n llai llwglyd wella eu gallu i ganolbwyntio ac felly eu cyrhaeddiad academaidd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gadarn ynglŷn â chysylltiadau achosol rhwng prydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad yn gyfyngedig.

Mae tystiolaeth o werthuso UIFSM yn Lloegr wedi awgrymu bod y polisi'n gysylltiedig â gostyngiad 8-10% mewn cyfraddau absenoldeb babanod ymhlith y rhai hynny a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn flaenorol, ond nid ymhlith babanod a oedd newydd ddod yn gymwys[19].



Mae anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad academaidd yn dangos graddiant amddifadedd wrth ddechrau'r ysgol ac mae hyn yn cynyddu drwy gydol addysg gynradd[31]. Awgrymodd dystiolaeth o werthuso cynlluniau peilot UIFSM yn Lloegr ei fod yn gysylltiedig â chyrhaeddiad gwell ymhlith plant 7 oed, bod y buddion ar eu mwyaf ymhlith y rhai hynny o'r teuluoedd lleiaf cefnog a chyda'r cyrhaeddiad isaf yn flaenorol, bod gostyngiadau'n parhau ar gyfnodau diweddarach ac nad oedd effaith ar absenoldebau[26]. Roedd y gwahaniaethau'n gymharol fach, ond gallent wneud gwahaniaethau sylweddol ar draws y boblogaeth gyfan.

Mae tystiolaeth o werthuso UIFSM yn Lloegr wedi awgrymu bod manteisio ar gynnig cyffredinol ar gyfer babanod yn gysylltiedig â chyrhaeddiad plant 5 a 7 oed; bod cyrhaeddiad y rhai hynny a oedd yn gymwys yn flaenorol fel petai wedi gwella o gymharu â'u cyfoedion a oedd newydd ddod yn gymwys yn 5 oed, ond bod hyn wedi gwrthdroi yn 7 oed[19]. Nid oedd tystiolaeth o Gymru ynglŷn â brecwastau am ddim i blant oed cynradd wedi canfod unrhyw gysylltiad rhwng darpariaeth a chyrhaeddiad academaidd[32].

Mae tystiolaeth ryngwladol wedi awgrymu cysylltiadau rhwng cyffredinoli ciniawau ysgol a chyrhaeddiad academaidd[33], ond mae'r rhain wedi'u nodweddu gan ddyluniadau a mesurau gwannach. Mae problemau hefyd â dulliau mewn astudiaethau yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys heriau wrth ddylunio astudiaethau effeithiol, defnyddio prydau ysgol am ddim fel arwydd o amddifadedd (sy'n ei gwneud yn anodd gweld sut byddai'r polisi hwn yn effeithio ar y rhai hynny nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd) a chymhlethdod o ran canfyddiadau.

At ei gilydd, er bod rhai arwyddion y byddai UPFSM yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chyrhaeddiad academaidd a dull greddfol o gredadwy ar gyfer sut byddai'r polisi'n effeithio ar anghydraddoldebau yn y meysydd hyn, roeddem o'r farn bod y dystiolaeth yn gyfyngedig yn y maes hwn.



Gallai pwyslais Llywodraeth Cymru ar yr economi sylfaenol o fewn cyd-destun y Cynllun Gweithredu Economaiddn greu cyfleoedd ar gyfer y dulliau hyn, ac mae'r ffaith nad yw darparu prydau ysgol yn cael ei gontractio allan ym mwyafrif yr awdurdodau lleol yn awgrymu bod rhai rhagamodau ar waith

5.1.4 Anghydraddoldebau o fewn/rhwng cymunedau lleol

Mae prydau ysgol yn wariant sylweddol. Mae annog pwyslais ar ddarparwyr a chadwyni cyflenwi lleol wedi cael ei nodi fel cyfle i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau[34].

Mewn cyfarfod bord gron diweddar, disgrifiodd y rhai hynny sy'n ymwneud â gweithredu polisïau prydau ysgol am ddim yn yr Alban ymdrechion i annog cyflenwi bwyd yn lleol, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnal rheolaeth dros y ddarpariaeth (h.y. osgoi contractio allan o wasanaethau neu leihau hynny i'r eithaf) a meddwl yn y tymor hir er mwyn cynyddu buddion i'r eithaf, annog arferion cynaliadwy a lleihau gwastraff gymaint â phosibl[35].

Gallai pwyslais Llywodraeth Cymru ar yr economi sylfaenol o fewn cyd-destun y Cynllun Gweithredu Economaiddn[36] greu cyfleoedd ar gyfer y dulliau hyn, ac mae'r ffaith nad yw darparu prydau ysgol yn cael ei gontractio allan ym mwyafrif yr awdurdodau lleol (yn debyg i'r Alban ond yn wahanol i Loegr) yn awgrymu bod rhai rhagamodau ar waith.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod strwythur cynhyrchu a dosbarthu bwyd yng Nghymru yn golygu ei bod yn anodd annog Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) lleol i gymryd rhan[37] a gallai gweithredu cyflym hefyd olygu bod perygl o ddatblygu dibyniaeth ar ddarparwyr mwy o faint o'r sector preifat.

Mae UPFSM yn cyflwyno cyfleoedd i ailfeddwl am ddarparu prydau ysgol mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau. Fodd bynnag, mae effeithiau negyddol yn bosibl hefyd os bydd gweithredu'n achosi i gwmnïau mwy o faint a chanddynt drefniadau prynu a dosbarthu canolog gymryd cyfran gynyddol o farchnadoedd lleol.

Mae tystiolaeth gan reolwyr a staff arlwyo yn cadarnhau mai menywod yn bennaf yw'r rhai sy'n gweithio ym maes arlwyo ysgolion, sy'n aml yn gweithio sifftiau amser cinio byr am gyflog fesul awr cymharol isel, hyd yn oed o gymharu â'r gweithlu arlwyo cyffredinol



5.1.5 Anghydraddoldebau rhwng y gweithlu arlwyo mewn ysgolion a gweithwyr eraill

Ni allem nodi data penodol am y gweithlu arlwyo mewn ysgolion. Mae tystiolaeth gan reolwyr a staff arlwyo yn cadarnhau mai menywod yn bennaf yw'r rhai sy'n gweithio ym maes arlwyo ysgolion, sy'n aml yn gweithio sifftiau amser cinio byr am gyflog fesul awr cymharol isel, hyd yn oed o gymharu â'r gweithlu arlwyo cyffredinol.

Adroddodd arolwg UNSAIN o'r gweithlu yn 2017 fod 64% yn cytuno â'r datganiad 'Rwy'n mwynhau fy swydd' ond bod ychydig dros draean (35%) yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio fel aelod o'r ysgol. Cyfeiriwyd at lwyth gwaith (46%), cyflog (41%) a sicrwydd swydd (25%) fel problemau[38]. Gall arlwyo mewn ysgolion gynnig llwybr i'r gweithlu ar gyfer y rhai hynny sydd â llai o gymwysterau, yn enwedig menywod sydd â chyfrifoldebau gofal plant ond sy'n gallu gweithio yn ystod oriau cinio ysgolion.

Mynegodd y staff arlwyo y siaradasom â nhw rywfaint o bryder y gallai'r trefniadau newydd gynyddu anghydraddoldebau rhwng staff arlwyo a gweithluoedd eraill, yn enwedig os byddai patrymau sifft yn newid neu lwythi gwaith yn cynyddu. Adroddwyd am gynigion o sifftiau un awr (yn hytrach na'r ddwy awr sy'n fwy arferol) a oedd yn cynnig cryn dipyn yn llai o fudd i weithwyr ar ôl ystyried amser teithio a pharatoi. Mae materion cymhleth yn ymwneud â budd-daliadau, fel y ffaith bod Credyd Cynhwysol yn lleihau yn ôl nifer yr oriau a weithir, yn creu pryder hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu'n flaenorol ynglŷn ag amodau contract ar gyfer rhai sectorau sy'n cyflogi niferoedd sylweddol o weithwyr mewn rolau hanfodol, lle yr ystyriwyd bod y rhain yn annheg ac yn niweidio recriwtio a chadw[39].

Roedd pryderon hefyd y gallai'r berthynas rhwng staff arlwyo a disgyblion ddioddef oherwydd bod angen gweini mwy o ddisgyblion o fewn cyfnod byrrach. Nodwyd bod y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn berthnasol o ran lliniaru risgiau a gwella amodau gwaith ar gyfer y grŵp hwn.

Mae risgiau clir, os na chymerir camau, y gallai gweithredu arwain at newidiadau i amodau gwaith sy'n cynyddu anghydraddoldebau.

5.2 Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, themâu lefel uchel

5.2.1 Mae defnydd uchel yn hanfodol ac mae'n gofyn am ddarpariaeth gynhwysol o ansawdd uchel

Un o'r rhagamodau ar gyfer mynd i'r afael â llawer o'r anghydraddoldebau presennol yw lefelau uchel o ddefnydd, yn enwedig ymhlith y grwpiau hynny sy'n profi'r anghydraddoldebau mwyaf ar hyn o bryd. Roedd yr effeithiau ar anghydraddoldebau a ddisgrifiwyd wrth werthuso UIFSM yn Lloegr yng nghyd-destun cynnydd mewn defnydd o 30-40% i 80-85% ar gyfer y rhai hynny nad oeddent yn gymwys yn flaenorol ac o 84% i 87% ymhlith y rhai hynny a oedd yn gymwys yn flaenorol[19] (er ei bod yn bwysig nodi bod hyn yn ymwneud â phrydau ysgol am ddim a ddarperir i fabanod). Mae hyn yn awgrymu bod lleihau anghydraddoldebau yn dibynnu ar ddefnydd uchel ymhlith y rhai hynny nad oeddent yn gymwys yn flaenorol, ond hefyd bod lle i wella canlyniadau ymhellach ar gyfer y rhai hynny a oedd yn gymwys yn flaenorol sy'n parhau i beidio â manteisio ar y cynnig, oherwydd amcangyfrifir nad yw 13% o'r holl blant ysgol yng Nghymru yn manteisio ar bryd ysgol am ddim y mae ganddynt yr hawl iddo[20].

Mae defnydd o brydau ysgol am ddim, ar hyn o bryd ac ar ôl cyflwyno UPFSM, yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau mewn nifer o ffyrdd penodol:

- Mae'r buddion a amlygwyd, yn ôl diffiniad, yn dibynnu ar fwyta prydau o ansawdd uchel mewn gwirionedd
- Dangosodd tystiolaeth gan randdeiliaid yr ystyrir bod stigma'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim i rieni a phlant, hyd yn oed mewn addysg gynradd. Byddai defnydd isel ymhlith y rhai sydd newydd ddod yn gymwys yn dangos bod prydau ysgol o werth isel
- Yn nodweddiadol, bu defnydd is ymhlith grwpiau penodol sydd wedi'u hymyleiddio oherwydd eu dewisiadau crefyddol a diwylliannol, neu oherwydd ni ddarperir (yn dda) ar gyfer eu hanghenion deietegol
- Mae posibilrwydd o gynyddu defnydd ymhlith y rhai sy'n gymwys ar hyn o bryd ond nad ydynt yn derbyn pryd ysgol am ddim, ond mae perygl hefyd y gallai'r defnydd leihau

Amlygwyd nifer o feysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn helpu i gynyddu defnydd mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau:

- Amlygwyd yn gyson yn y llenyddiaeth a chan randdeiliaid bod **cynnal ansawdd y bwyd sydd ar gael, a'i wella lle y bo'n bosibl**, yn bwysig i rieni a phlant, er mwyn annog defnydd gan y rhai hynny sydd newydd ddod yn gymwys a chynnal a chynyddu defnydd (a'i fuddion) ymhlith y rhai hynny sy'n gymwys ar hyn o bryd

- **Cynyddu dewis** yw un o'r newidiadau a amlygwyd yn fwyaf cyson gan blant ysgol gynradd y siaradasom â nhw a chan randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Disgrifiodd rhai plant ddiwrnodau penodol pan oeddent yn casáu amser bwyd oherwydd nad oeddent yn hoffi'r pryd a oedd ar gael, ac nid oedd rhai plant yn hoffi amser bwyd yn yr ysgol oherwydd nad oeddent yn teimlo bod ganddynt unrhyw reolaeth dros y fwydlen. Mae cynyddu dewis yn debygol o fod yn heriol wrth weithredu'r polisi, ond mae'n berthnasol iawn i ddefnydd, yn enwedig ymhlith y rhai hynny sy'n profi'r anghydraddoldebau mwyaf[28]

- **Sicrhau bod bwyd priodol ar gael i'r rhai hynny ag anghenion deietegol, gan gynnwys y rhai hynny ag anoddefiadau bwyd ac o gefndiroedd lleiafrifol**

- **Monitro defnydd gan y rhai a oedd yn gymwys yn flaenorol a'r rhai sydd newydd ddod yn gymwys.** Wrth i UPFSM gael ei weithredu, mae systemau ar waith i barhau i gofnodi pa ddisgyblion a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Byddai cynyddu defnydd ymhlith y grŵp hwn yn lleihau anghydraddoldebau. Bydd deall effeithiau penodol UPFSM ar y rhai a oedd yn gymwys yn flaenorol a'r rhai sydd newydd ddod yn gymwys yn fesur pwysig o effeithiolrwydd

- **Defnyddio dull ysgol gyfan,** gan gynnwys trwy'r cwricwlwm a strwythurau presennol fel y Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru. Gallai'r dull hwn greu dolenni adborth cadarnhaol lle mae prydau ysgol iachus a chymorth yn yr ysgol yn annog blasu amrywiaeth ehangach o fwydydd mewn ysgolion, gan ehangu dewisiadau ar gyfer bwyta'n iachach gartref, sy'n annog mwy o ymgysylltiad â bwyd iachus mewn ysgolion. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid hefyd fod gweithgareddau ysgol sy'n ymwneud â bwyd yn gallu achosi stigma i'r rhai hynny nad ydynt yn gallu fforddio dod â bwyd i'r ysgol i'w goginio, a bod plant yn gallu profi pwysau i feirniadu dewisiadau bwyd y teulu nad oes ganddynt fawr o reolaeth drostynt

- **Cynnwys plant mewn cynllunio bwydlenni ac amserau bwyd.** Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod cymorth trwy ddarpariaeth gyffredinol yn gallu mynd i'r afael ag anghenion uwch trwy ddealltwriaeth fwy penodol
- **Cyfathrebu cryf â rhieni,** yn enwedig y rhai hynny sydd newydd ddod yn gymwys. Nodwyd bod hyn yn ffactor sy'n cefnogi defnydd ar gyfer y rhai hynny sydd newydd ddod yn gymwys[26]

Argymhellion



- Cynnal ansawdd y bwyd sydd ar gael, a'i wella, lle y bo'n bosibl
- Sicrhau bod bwyd priodol ar gael i'r rhai hynny ag anghenion deietegol, gan gynnwys y rhai hynny ag anoddefiadau bwyd ac o gefndiroedd lleiafrifol
- Monitro defnydd gan y rhai a oedd yn gymwys yn flaenorol a'r rhai sydd newydd ddod yn gymwys
- Defnyddio dull ysgol gyfan, gan gysylltu darparu prydau ysgol ag addysgu ehangach a gweithgareddau iechyd a lles sy'n ymwneud â bwyta'n iach
- Cynnwys plant mewn cynllunio bwydlenni ac amserau bwyd
- Cynllunio cyfathrebu clir â rhieni ynglŷn ag argaeledd ac ansawdd prydau ysgol

5.2.2 Mae cyfleoedd i gymdeithasu a chwarae yn ganolog

Yn rhan o'n gwaith, cynhaliom ymweliad ysgol a gofyn i blant oed ysgol gynradd ddisgrifio eu profiadau o brydau ysgol. Gwnaethant ddechrau'n gyson gyda beirniadaeth fanwl o'r systemau ar gyfer ciwio ac eistedd. Dywedwyd yn aml bod y rhain yn creu cystadleuaeth a straen, ac roedd rhai plant yn datblygu strategaethau soffistigedig i gynyddu'r buddion canfyddedig i'r eithaf mewn system sy'n aml yn teimlo'n frysiog ac nad yw wedi'i dylunio o amgylch eu hanghenion a'u dewisiadau. Roedd hyn yn gyson â phrofiadau rhanddeiliaid a chanddynt brofiad uniongyrchol o weithio gyda disgyblion oed cynradd.

Dywedodd rhanddeiliaid yn gyson fod yr amser a oedd ar gael i ddisgyblion gael cinio'n byrhau, ac mae tystiolaeth fod amser cinio byrrach yn gysylltiedig â lefelau amddifadedd lleoliad yr ysgol, er bod hyn yn fwy amlwg ar gyfer ysgolion uwchradd[40]. Mae gwerthusiadau o effaith UIFSM yn Lloegr a'r Alban wedi nodi bod angen i ginio gael ei ddarparu mewn amgylchedd lle mae'r disgyblion yn gyfforddus ac yn cael digon o amser i fwyta er mwyn i'r buddion gael eu gwireddu'n llawn[19,23,24]. Cydnabyddir pwysigrwydd chwarae yn gyffredinol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sy'n ganolog i bolisïau Llywodraeth Cymru ynglŷn â phlant[41], ac mae amserau egwyl digonol, sy'n cynnwys digon o amser i fwyta, chwarae a chymdeithasu, yn cael eu cydnabod hefyd yn arweiniad Fframwaith Addysg Cymru yn ymwneud â lles emosiynol a meddyliol[42]. Mae plant ysgol gynradd, yn arbennig, yn gwerthfawrogi chwarae ac fe allent hepgor prydau neu ffafrio mynd â chinio pecyn i'r ysgol er mwyn cynyddu eu hamser chwarae i'r eithaf. Mae rhwystrau sy'n atal disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol a'r rhai hynny sy'n dod â chinio pecyn rhag eistedd gyda'i gilydd wedi cael eu nodi hefyd fel rheswm pam mae disgyblion yn gwrthod prydau ysgol. Roedd y materion hyn yn bodoli cyn COVID-19 ond fe'u dwysawyd gan yr ymateb i'r pandemig, a welodd drefniadau arlwyo ysgolion yn lleihau cysylltiad cymdeithasol gymaint â phosibl trwy gynyddu effeithlonrwydd a llif i'r eithaf. Mae'r systemau hyn wedi cael eu cadw yn aml.

Mae'r straen sy'n gysylltiedig â'r trefniadau hyn yn effeithio ar anghydraddoldebau. Mae disgyblion ag anghenion datblygiadol penodol, fel y rhai hynny ag anableddau neu sydd ar y sbectrwm awtistiaeth, yn fwy tebygol o feddwl bod lleoliadau cinio ysgol yn anodd ymdopi â nhw. Dywedodd staff arlwyo hefyd fod y rhai hynny â dewisiadau bwyd cryfach, sy'n aml yn ddisgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig, yn pryderu na fydd eu hoff eitemau ar gael. Trwy gynyddu nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim, mae'r polisïau hyn yn peryglu lleihau gallu staff arlwyo i adnabod a chynorthwyo'r rhai hynny ag anghenion penodol. Mae hyn yn golygu bod perygl y gallai amser cinio fod yn llai pleserus i ddisgyblion o'r fath: ffactor pwysig sy'n pennu defnydd yn ogystal â mesur pwysig o les ynddo'i hun.

Nodwyd effaith ehangach trefniadau cinio ar gyfleoedd i chwarae hefyd. Mae pwysigrwydd chwarae mewn datblygiad plant a'r anghydraddoldebau y mae chwarae mewn ysgolion yn mynd i'r afael â nhw wedi'u hen sefydlu ac yn cael eu hadlewyrchu yn uchelgais Llywodraeth Cymru i Gymru fod yn 'wlad sy'n creu cyfle i chwarae'[43].

Mae perygl y bydd ehangu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn byrhau amser cinio ymhellach, yn gwneud lleoliadau cinio'n fannau sy'n achosi mwy o straen ac yn lleihau cyfleoedd i chwarae. Wrth ddatblygu polisi, dylid ystyried sut i sicrhau bod egwyliau amser cinio'n adlewyrchu ymrwymiadau mewn strategaethau a pholisïau eraill, fel dulliau wedi'u seilio ar hawliau, er mwyn sicrhau bod amser cinio'n cynnwys digon o gyfleoedd i fwynhau cinio a chymdeithasu mewn amgylchedd hamddenol a digon o amser i chwarae.

Argymhellion



- Sicrhau bod egwyliau amser cinio yn darparu digon o amser i fwyta cinio ac i chwarae
- Sicrhau bod yr amgylchedd cinio'n caniatáu i ddisgyblion fwyta mewn amgylchedd hamddenol a chymdeithasol

5.2.3 Dysgu o raglenni bwyd y tu allan i'r ysgol

Mae nifer o raglenni gwyliau ysgol wedi cael eu cynnal yng Nghymru sydd wedi darparu prydau amser cinio i blant sy'n byw gydag amddifadedd. Awgrymodd gwerthusiadau o'r rhaglenni hyn[44] a phrofiadau rhanddeiliaid y bu'r rhain yn effeithiol wrth leihau anghydraddoldebau. Fodd bynnag, gan fod y rhain yn rhaglenni wedi'u targedu, roedd pryderon nad oeddent wedi'u hintegreiddio'n dda â darpariaeth gyffredinol.

Mae'r rhesymau dros eu llwyddiant yn gyson â llawer o'r ffactorau a amlygwyd yma ar gyfer lleihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â darparu prydau am ddim mewn ysgolion. Nodwyd bod annog cymdeithasu a gwneud bwyta'n brofiad pleserus, gweld cysylltiad rhwng bwyd a chyfleoedd i chwarae, cefnogi plant i flasu bwydydd newydd a chynnwys teuluoedd oll yn cyfrannu at y llwyddiant hwn.

Gallai dysgu o'r cynlluniau hyn helpu i weithredu'n fwy effeithiol er mwyn lleihau anghydraddoldebau, yn enwedig lle y datblygwyd gwybodaeth a rhwydweithiau lleol.

Argymhelliad

- Amlygu sut mae cynlluniau lleol wedi defnyddio gwybodaeth a rhwydweithiau lleol yn effeithiol

5.2.4 Mae darpariaeth gynaliadwy sy'n cefnogi ac yn adeiladu economïau sylfaenol lleol yn gofyn am gynllunio ac ymrwymiad tymor

Mae ehangu cymhwysedd i brydau ysgol am ddim yn cynnig cyfleoedd i fuddsoddi mewn economïau sylfaenol lleol mewn ffyrdd sy'n gwella cynaliadwyedd. Mae nifer o fodelau wedi cael eu hamlygu a allai gefnogi hyn, gan gynnwys Creu Cyfoeth Cymunedol[45] a datblygu ysgolion fel 'sefydliadau angori' lleol, gyda rhai enghreifftiau o waith yn Lloegr wedi'u nodi. Byddai angen gwneud rhagor o waith i egluro pa fodelau a allai fod yn effeithiol ac yn berthnasol i bolisi yng Nghymru.

Yr hyn sy'n glir o'r dystiolaeth, yn enwedig o'r Alban, yw bod cynllunio ac ymrwymiad tymor hir i bartneriaethau â chyflenwyr lleol yn hanfodol i ddatblygu darpariaeth leol gynaliadwy dros amser.

Mae darpariaeth gynaliadwy yn gofyn am ymrwymiad tymor hir i bartneriaethau a chynllunio. Mae angen i fodelau ar gyfer ymgysylltu ag economïau sylfaenol lleol gael eu hasesu ac fe allent gael eu treialu.

Argymhellion



- Cefnogi ymrwymiad tymor hir i bartneriaethau a chynllunio mewn economïau sylfaenol lleol i gyflenwi bwyd ar gyfer prydau ysgol
- Amlygu a threialu'r modelau mwyaf effeithiol o ymgysylltu ag economïau sylfaenol lleol (e.e. sefydliadau angori; creu cyfoeth cymunedol)

5.2.5 Ymsefydlu arferion gwaith teg ym maes arlwyo ysgolion

Mae perygl y gallai UPFSM ymestyn gweithluoedd arlwyo ysgolion, yn enwedig wrth i'r argyfwng costau byw a chwyddiant cysylltiedig gynyddu'r pwysau ar gyllidebau. Fodd bynnag, mae'r polisi hefyd yn gyfle i ymsefydlu arferion gwaith teg mewn gweithleoedd arlwyo ysgolion. Gallai dulliau o gyflawni hyn gynnwys cynyddu pŵer negodi gweithwyr trwy aelodaeth ag undeb, gosod safonau contract ac ymrwymo i gyfraddau fesul awr sy'n adlewyrchu'r cyflog byw. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd cadw darpariaeth 'fewnol' yn hytrach nag allanoli yn cefnogi arferion gwaith teg. Mae'r dulliau hyn yn debygol o fod yn heriol yng nghyd-destun ansicrwydd economaidd a chyfyngiadau cyllidol, ond mae cynnal a datblygu staff ymroddedig a phroffesiynol yn ffactor allweddol hefyd wrth gynnal ansawdd y ddarpariaeth.

Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer prydau ysgol gael ei chadw'n fewnol. Dylai arferion gwaith teg gael eu hymsefydlu mewn amgylcheddau arlwyo ysgolion trwy osod safonau contract, ymrwymo i gyfraddau fesul awr sy'n adlewyrchu'r cyflog byw a chefnogi mwy o bŵer negodi i weithwyr trwy aelodaeth ag undeb.



Argymhellion

- Parhau i baratoi bwyd o fewn ysgolion er mwyn cefnogi arferion gwaith teg a darparu prydau ffres, iachus
- Dylai arferion gwaith teg gael eu hymsefydlu mewn amgylcheddau arlwyo ysgolion trwy osod safonau contract, ymrwymo i gyfraddau fesul awr ar y cyflog byw gwirioneddol a chefnogi mwy o bŵer negodi i weithwyr trwy aelodaeth ag undeb a phartneriaeth gymdeithasol

06 GOFAL PLANT Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

6.1 Tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch

At ei gilydd, roedd gwaith ymchwil, gwerthusiadau a thystiolaeth gan randdeiliaid yn cytuno'n gryf y bydd ymestyn cymhwysedd ar gyfer gofal plant i blant 2-3 oed trwy ehangu Dechrau'n Deg ac ymestyn y Cynnig Gofal Plant i'r rhai hynny sydd mewn addysg neu 'ar drothwy gwaith' yn lleihau anghydraddoldebau, yn enwedig ar gyfer teuluoedd sy'n profi amddifadedd nad ydynt eisoes yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth.

Fodd bynnag, mae perygl y bydd rhai teuluoedd sydd â'r anghenion mwyaf yn parhau i gael eu heithrio. Gallai'r effaith ar anghydraddoldebau a brofir gan weithwyr fod yn gadarnhaol os bydd cyflog ac amodau'n cael eu gwella, ond mae perygl y bydd ehangu'n achosi trafferth i rai (yn enwedig gwarchodwyr plant) ac yn cael effaith negyddol ar weithlu sydd eisoes wedi'i ymestyn. Gallai hyn gael effaith gynyddol ar anghydraddoldebau ymhlith plant a theuluoedd, yn enwedig y rhai hynny sy'n profi amddifadedd neu sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae'r dystiolaeth yn codi pryderon ynglŷn ag effaith ymestyn argaeledd ar gynaliadwyedd lleoliadau, gan gynnwys effeithiau penodol ar anghydraddoldebau.

Disgrifir risgiau i grwpiau penodol yn gysylltiedig â defnyddio'r rhaglenni estynedig yn yr adran nesaf.





Yn 2019-20 yng Nghymru, dim ond 31% o rieni plant 0-4 oed yr ystyriwyd eu bod yn ddi-waith oedd yn defnyddio gofal plant, o gymharu â 69% o'r rhai cyflogedig

6.1.1 Anghydraddoldebau economaidd rhwng teuluoedd

Mae ehangu polisïau gofal plant y blynyddoedd cynnar yn lleihau anghydraddoldebau economaidd rhwng teuluoedd trwy alluogi rhieni na fyddent yn gallu fforddio gofal plant fel arall i gael gwaith neu gynyddu eu horiau gwaith.

Awgrymodd data o 2016-17 fod 47% o rieni sy'n defnyddio gofal plant taledig ar gyfer plant 0-4 oed yn ei chael hi'n 'anodd' ei fforddio. O ran y rhai hynny mewn aelwydydd yr ystyriwyd eu bod 'mewn amddifadedd materol', y gyfran oedd 72%. O ran y rhai hynny yn yr ail gwintel mwyaf difreintiedig (h.y., y rhai hynny a dargedwyd yn rhan o estyniad cychwynnol Dechrau'n Deg), roedd yn 60%[46]. Yn 2019-20 yng Nghymru, dim ond 31% o rieni plant 0-4 oed yr ystyriwyd eu bod yn ddi-waith oedd yn defnyddio gofal plant, o gymharu â 69% o'r rhai cyflogedig[47].

Mae cost gofal plant yn y Deyrnas Unedig yn uchel o gymharu â gwledydd eraill, ac mae wedi codi'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf[48]. Mae gwerthusiadau o'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru a chynigion tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wedi adrodd yn gyson bod 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim yn gwella mynediad at waith, cyllid y teulu ac ansawdd bywyd teuluol, a bod y rhai hynny ar incwm is yn adrodd am y buddion mwyaf[5,49]. Er gwaethaf pryderon y gallai'r Cynnig gynyddu anghydraddoldebau economaidd trwy gynnig cymorth i deuluoedd ag enillion uchel[15], mae'r dystiolaeth o'r gwerthusiadau'n awgrymu bod cyflog gros canolrifol unigolion sy'n defnyddio'r cynnig islaw'r canolrif cenedlaethol, a bod 27% o rieni a'i defnyddiodd yn 2020-21 yn ennill llai nag £16,000[5].

Adroddodd y gwerthusiad mwyaf diweddar fod y Cynnig wedi galluogi llawer o rieni i gynyddu eu henillion er gwaethaf effaith y pandemig, yn enwedig y rhai hynny ar incwm is[5]. Mae gwerthusiadau o'r rhaglen Dechrau'n Deg wedi awgrymu ei bod yn helpu'r rhai hynny ar incwm isel i gael gwaith[50].

Mae cyfyngiadau darpariaeth bresennol y Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at waith trwy ddarparu gofal plant i'r rhai hynny nad ydynt mewn cyflogaeth (ac sydd felly'n fwy tebygol o fod dan anfantais yn economaidd) wedi cael eu disgrifio'n fanwl[15] a disgwylir i ymestyn cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i rieni nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn.

Bydd y diffiniadau a ddefnyddir gan y Cynnig Gofal Plant ar gyfer rhieni sydd 'mewn addysg' ac 'ar drothwy gwaith' (a sut byddant yn esblygu dros amser) yn effeithio ar anghydraddoldebau. Mae'r diffiniad presennol yn cynnwys rhieni sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg uwch ac addysg bellach, ond mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y gallai carfanau ychwanegol o ddysgwyr gael eu cofrestru dros amser[51]. Gallai'r diffiniad olygu nad yw rhai o'r rheiny sy'n byw gyda'r amddifadedd mwyaf, sy'n debygol o wynebu'r rhwystrau mwyaf rhag cael gwaith ac addysg, yn gymwys. Gallai hyn leihau anghydraddoldebau economaidd mewn rhai rhannau o'r gymdeithas, ond cynyddu anghydraddoldebau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Bydd ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ddaearyddol ar sail amddifadedd lefel ardal yn golygu y bydd rhai teuluoedd sy'n byw gydag amddifadedd mewn ardaloedd eraill yn parhau i fynd hebddi, gan gynyddu'r anghydraddoldebau maen nhw'n eu profi tra bod pobl eraill sy'n llai anghenus yn derbyn gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaeth allgymorth i deuluoedd y tu allan i ardaloedd craidd yn seiliedig ar anghenion. Gallai hyn ddarparu cyfleoedd i liniaru neu leihau anghydraddoldebau, ond bydd yn dibynnu ar integreiddio gwybodaeth leol i'r broses weithredu.

Dywedodd rhanddeiliaid fod y berthynas rhwng gofal plant proffesiynol a chymorth anffurfiol gan deulu, ffrindiau ac o fewn cymunedau yn cynnwys nifer o elfennau sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau.

Gallai darparu gofal plant leihau anghydraddoldebau economaidd trwy 'ryddhau' ffrindiau ac aelodau'r teulu o gyfrifoldebau gofal plant a'u galluogi i ddod o hyd i waith (gwell). Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw dystiolaeth a fyddai'n caniatáu i'r ddamcaniaeth hon gael ei phrofi, ac nid yw'n glir bod y rhai hynny sy'n darparu gofal o'r fath ar hyn o bryd yn ceisio cyflogaeth neu y byddent yn gwneud hynny.

Mae'n bosibl y bydd rhaid i ofal plant 'gystadlu' â rhwydweithiau gofal anffurfiol hefyd, a gallai hyn amrywio rhwng cymunedau. Er enghraifft, efallai byddai'n well gan rai cymunedau gynnal rhwydweithiau gofal anffurfiol sy'n adlewyrchu eu dewisiadau diwylliannol yn hytrach na defnyddio gofal a ariennir neu a ddarperir gan y wladwriaeth. Gallai hyn gyfyngu ar fuddion economaidd posibl ehangu gofal plant i gymunedau penodol.

Nododd rhanddeiliaid ganfyddiad cyffredinol bod y rhai hynny sy'n byw gydag amddifadedd yn fwy tebygol o ddibynnu ar rwydweithiau gofal anffurfiol, oherwydd eu bod yn gallu fforddio llai o ofal plant, bod arnynt angen mwy o hyblygrwydd i fodloni gofynion patrymau gweithio ansicr a'u bod yn llai tebygol o symud i ffwrdd oddi wrth deuluoedd ar gyfer addysg neu waith. Fodd bynnag, mae pryder y gallai'r rhwydweithiau anffurfiol hyn fod yn llai cadarn nag a dybir yn aml ar gyfer llawer o'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf[52].

Disgwylir i ehangu Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant leihau anghydraddoldebau economaidd rhwng teuluoedd. Fodd bynnag, mae peryglon na fydd rhai teuluoedd â'r anghenion mwyaf yn gallu cael mynediad at y rhaglenni hyn o hyd.

6.1.2 Anghydraddoldebau iechyd rhwng plant

Mae polisïau sy'n darparu cymorth cyffredinol yn ymwneud ag iechyd, gan gynnwys atal, adnabod cyflyrau iechyd yn gynnar, mynediad at wasanaethau a gwella iechyd, yn debygol o leihau anghydraddoldebau iechyd. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod gan blant a theuluoedd sy'n cael eu hymyleiddio neu sy'n byw gydag amddifadedd ganlyniadau iechyd gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol[53] a nhw sydd â'r potensial mwyaf i elwa o'r gwasanaethau hyn.

Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar y ffaith bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf yn gallu manteisio ar y gwasanaethau hynny, ac mae'n bosibl na fyddant yn gallu oherwydd eu profiad o ymyleiddio ac amddifadedd. Mae'n bwysig nad yw'r symudiad o ddarpariaeth wedi'i thargedu i ddarpariaeth gyffredinol yn lleihau effeithiolrwydd gwasanaethau i fodloni gofynion penodol y rhai hynny â'r anghenion mwyaf. Felly, mae patrymau defnydd yn bwysig iawn i lwyddiant y polisïau wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Disgwylir i wasanaeth ymwelydd iechyd gwell a mynediad at ofal plant o ansawdd uchel gynyddu'r tebygolrwydd y bydd problemau iechyd plant yn cael eu hadnabod yn brydlon, y byddant yn cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn gynnar ac y byddant yn elwa o raglenni ataliol fel brechu. Gallai mynediad at fwyd maethlon, chwarae ac ymarfer corff mewn lleoliadau gofal plant arwain at fuddion posibl i iechyd hefyd.

Gallai cymorth ar gyfer magu plant yn well leihau problemau iechyd sy'n gysylltiedig â damweiniau a lles meddyliol plant. Nododd y gwerthusiad mwyaf diweddar fod y Cynnig Gofal Plant wedi cefnogi iechyd meddwl a lles plant a theuluoedd yn ystod y pandemig[5]. Er yr adroddwyd am y buddion hyn ar draws pob lefel incwm, mae effaith anghymesur y pandemig ar y rhai sy'n byw gydag amddifadedd[54] yn golygu bod hyn yn debygol o fod wedi lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn awgrymu y gallai darpariaeth gofal plant fod yn arbennig o werthfawr yn ystod adegau o gynnwrf economaidd.



Disgwylir i'r rhai hynny mewn cymunedau sydd wedi'u hymyleiddio neu sy'n byw gydag amddifadedd elwa mwy o gymorth i ddefnyddio gwasanaethau ac argaeledd lleoliadau sy'n hybu iechyd, gan eu bod yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau rhag mynediad. Fodd bynnag, gallai rhai o'r effeithiau cadarnhaol hyn gael eu lleihau os na all cyfleusterau newydd sicrhau safle o ansawdd da, gyda chyfleoedd chwarae da dan do ac yn yr awyr agored ac agosrwydd i fan gwyrdd. Mae gwerthusiadau o Ddechrau'n Deg wedi awgrymu bod teuluoedd ethnig lleiafrifol yn arbennig yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt i gael mynediad at wasanaethau'n fwy prydlon[50].

Ar gyfartaledd, roedd plant a oedd yn derbyn gwasanaeth ymwelydd iechyd gwell yn cael eu gweld 5.1 gwaith y flwyddyn gan ymwelydd iechyd a 2.1 gwaith arall gan aelodau o'r tîm iechyd ehangach, er bod cryn amrywiaeth rhwng ardaloedd awdurdod lleol[4]. Mae canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn seiliedig ar ddadansoddi data cysylltiol o ardal awdurdod lleol Abertawe wedi awgrymu cysylltiad posibl rhwng Dechrau'n Deg a llai o ymweliadau ag adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a derbyniadau i'r ysbyty, ond mae angen ymchwilio ymhellach i hyn[55].

Awgrymodd tystiolaeth o Loegr fod derbyniadau i'r ysbyty yn uwch ar gyfer plant mewn ardaloedd Cychwyn Cadarn yn y blynyddoedd cynnar, ond yn lleihau o oed cynradd ymlaen o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn rhan o Gychwyn Cadarn sydd ag amddifadedd tebyg. Roedd y gostyngiadau'n deillio o lai o heintiau, anafiadau a phroblemau iechyd meddwl, ac awgrymodd yr ymchwil mai'r dulliau gweithredu oedd systemau imiwnedd cryfach, arferion magu plant ac amgylcheddau cartref mwy diogel, a gwell datblygiad emosiynol ac ymddygiadol[56].

Ni amlygwyd unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â mynediad at ofal sylfaenol, sy'n arbennig o bwysig ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar, er y disgwylir i ymwelwyr iechyd fynd i'r afael â'r meysydd hyn ar gyfer plant cyn-ysgol.

Mae'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn gynllun achredu cenedlaethol sy'n cydnabod lleoliadau sy'n hybu iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae Cynllun Cyn-ysgol Rhwydwaith Iechyd Cymru (WNHPSS) yn darparu dull o gynorthwyo lleoliadau presennol a newydd i ddatblygu'r wybodaeth, yr arweinyddiaeth a'r ymgysylltiad â theuluoedd a chymunedau i gynyddu cyfleoedd i wella iechyd i'r eithaf.

rhwng plant, ar yr amod bod defnydd yn uchel ymhlith y rhai â'r angen mwyaf ac y gellir cynnal ansawdd y gwasanaeth, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg. Mae niferoedd staff, argaeledd yn yr ardaloedd mwyaf amddifad ac ansawdd gofal yn arbennig o bwysig. Mae angen gwerthuso bylchau yn y dystiolaeth yn fwy er mwyn nodi'r dulliau sy'n gysylltiedig yn glir (h.y. beth sy'n deillio o gysylltiad a beth sy'n deillio o achos ac effaith) ac amlygu cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ymhellach.

6.1.3 Anghydraddoldebau o ran datblygiad, cynnydd unigol a chanlyniadau addysgol tymor hwy rhwng plant

Disgwylir i bolisïau sy'n ehangu gofal plant o ansawdd uchel ar gyfer plant o oedran ifanc a chymorth gyda meysydd datblygiad penodol ar gyfer y rhai yr amlygwyd bod ganddynt anghenion yn y meysydd hyn leihau anghydraddoldebau, yn enwedig y rhai hynny a brofir gan bobl sy'n byw gydag amddifadedd nad yw Dechrau'n Deg ar gael iddynt ar hyn o bryd neu nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ar hyn o bryd. Mae nifer o ddulliau y disgwylir iddynt leihau anghydraddoldebau.

Mae manylion y ddarpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y rhaglen Dechrau'n Deg yn amlygu rhai nodweddion sy'n gysylltiedig â theuluoedd sy'n byw mewn amddifadedd (e.e. llai o ddarllen) y gall cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu wneud iawn amdanynt, gan leihau bylchau mewn datblygiad cyn i blant ddechrau addysg gynnar[31].

Canfu ymchwil ansoddol hefyd fod rhieni'n credu bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plant, yn ogystal â'u datblygiad, eu sgiliau cymdeithasol a'u hymddygiad[50].

Gall cymorth magu plant wella sgiliau magu plant, ac mae arferion magu plant cadarnhaol a hyderus yn gysylltiedig â datblygiad gwell a chyrhaeddiad academaidd tymor hir[57].

Mae teuluoedd sy'n byw gydag amddifadedd yn ei chael hi'n fwy anodd darparu amgylchedd cadarnhaol a modelu ymddygiad magu plant cadarnhaol o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol, oriau gwaith hir ac ansafonol a diffyg cymorth[57]. Tybir bod gofal plant o ansawdd uchel yn lleihau anghydraddoldebau oherwydd ei fod yn galluogi plant o deuluoedd sy'n byw gydag amddifadedd i ennill sgiliau maen nhw'n fwy tebygol o fod yn brin ohonynt na phlant llai difreintiedig, a hefyd oherwydd bod teuluoedd yn cael cyfleoedd i wella sgiliau magu plant. Canfu gwerthusiad o Gychwyn Cadarn yn Lloegr dystiolaeth o'r ddau ganlyniad hyn ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig[58]. Mae hefyd yn fwy anodd i'r teuluoedd hyn gael mynediad at ofal plant o ansawdd uchel mewn marchnad fasnachol.

Yn ôl y model hwn, mae anghydraddoldebau'n cael eu creu gan faterion yn yr amgylchedd economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n arwain at ddiffyg amser ac egni i ddatblygu sgiliau magu plant a'u rhoi ar waith. Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, mae'n bwysig bod lleoliadau gofal plant yn cefnogi rhieni ac yn osgoi barnu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Amlygwyd bod yr angen i fod yn effro i strategaethau ar gyfer cynhwysiant, fel defnydd cyson a chefnogol o iaith (i ddisgrifio'r hyn a olygir gan 'fagu plant', er enghraifft), yn bwysig er mwyn cynyddu effaith Dechrau'n Deg, yn arbennig, i'r eithaf ar ganlyniadau datblygiadol ac addysgol.

'gymesur', sy'n golygu y bydd staff yn gallu canolbwyntio'n ddwysach ar y rhai ag anghenion uwch.

Mae plant o deuluoedd sy'n byw gydag amddifadedd yn sylweddol fwy tebygol o fod â sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu tlotach wrth ddechrau'r ysgol, ac mae anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad ysgol rhwng y rhai hynny â galluoedd ieithyddol gwahanol ar yr oedran hwn yn parhau ac yn tyfu ar hyd eu gyrfa ysgol ac yn trosi'n anghydraddoldebau mewn cyflogaeth[30,57].



Mae plant o deuluoedd sy'n byw gydag amddifadedd yn sylweddol fwy tebygol o fod â sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu tlotach wrth ddechrau'r ysgol, ac mae anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad ysgol rhwng y rhai hynny â galluoedd ieithyddol gwahanol ar yr oedran hwn yn parhau ac yn tyfu ar hyd eu gyrfa ysgol ac yn trosi'n anghydraddoldebau mewn cyflogaeth

Mae dadansoddiad o ddata cysylltiol o ardal awdurdod lleol Abertawe wedi cymharu asesiadau wrth ddechrau'r ysgol rhwng 2015-16 a 2017-18[59]. Canfu'r dadansoddiad hwn fod canran is o blant o ardaloedd Dechrau'n Deg wedi cyflawni eu canlyniadau disgwyliedig mewn asesiadau wrth ddechrau'r ysgol o gymharu â'r rhai hynny o ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg, ond bod plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg â phresenoldeb uchel mewn gofal plant yn fwy tebygol o gyflawni eu canlyniadau disgwyliedig o gymharu â'r rhai hynny â phresenoldeb isel[59]. Mae'r astudiaeth ddisgrifiadol hon yn darparu rhywfaint o dystiolaeth o effeithiolrwydd gofal plant wrth gynorthwyo plant i baratoi ar gyfer addysg gynnar, ond byddai angen dadansoddiad ystadegol mwy cadarn i gadarnhau'r canfyddiadau.

Adroddodd gwerthusiad o ganlyniadau rhwng 2007 a 2015, a oedd yn cymharu ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ehangu, fod nifer cyfartalog yr absenoldebau heb awdurdod (ar gyfer disgyblion ag un absenoldeb heb awdurdod o leiaf) wedi gostwng o 17.2 i 14.3 o ddiwrnodau cyn ac ar ôl i Ddechrau'n Deg fod ar gael yn eu hardal. Fodd bynnag, y ffigurau cymharol oedd 13.4 ac 11.9 ar gyfer y rhai mewn ardaloedd lle nad oedd Dechrau'n Deg ar gael. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r rhai hynny a adroddwyd yn sgil dadansoddi data cysylltiol ar gyfer disgyblion yn Abertawe o 2011-12 i 2015-16[60]. Mae hyn yn awgrymu y gallai Dechrau'n Deg fod wedi lleihau absenoldebau ar gyfer y plant hyn o gymharu â phlant nad oedd y rhaglen ar gael iddynt, ond mae'r cyd-destun absenoldebau sy'n gostwng ar gyfer y ddau grŵp yn awgrymu bod ffactorau eraill yn gysylltiedig, o bosibl, ac mae angen dadansoddi ymhellach i gadarnhau'r canfyddiadau.

Awgrymodd yr un gwerthusiad y gallai Dechrau'n Deg gyfrannu at adnabod Anghenion Addysgol Arbennig (AAA[b]) yn gynnar[30], sy'n ffordd arall y gallai Dechrau'n Deg gyfrannu at leihau anghydraddoldebau.

Awgrymodd yr un astudiaeth fod cyrhaeddiad plant 7 oed o ardaloedd Dechrau'n Deg yn uwch hefyd ac y gallai'r rhai ag AAA fod yn fwy tebygol o gael eu hadnabod os ydynt yn defnyddio Dechrau'n Deg, gan liniaru'r anghydraddoldebau[30].

Mae gwerthusiad diweddar o'r Cynnig Gofal Plant yn awgrymu bod nifer y plant cyn-ysgol yr amlygwyd bod ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY[c]) wedi cynyddu yn ystod y pandemig, ac awgrymodd rhanddeiliaid fod hyn o ganlyniad i effaith negyddol cyfnodau clo ar ddysgu a datblygiad[5].

Nododd adolygiad mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru o'r sector gofal plant yng Nghymru yn 2018 fod lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn adrodd yn nodweddiadol am anawsterau penodol wrth recriwtio staff a'i bod yn debygol bod hwn yn fater y bydd angen ei reoli'n ofalus yn y tymor hir[61].

Disgwylir i ehangu Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant leihau anghydraddoldebau o ran datblygiad a chyrhaeddiad ysgol rhwng plant, yn enwedig y rhai hynny o deuluoedd sy'n byw gydag amddifadedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwasanaethau'n gynhwysol, a bod rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau, ac nad ydynt yn cael eu barnu oherwydd bod ganddynt rwystrau i'w goresgyn.

[b] Sylwer bod y fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi cael ei ddisodli gan y fframwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn 2018, sydd â diffiniad tebyg. Mae'r term yn yr adroddiad neu'r ymchwil a ddyfynnwyd wedi cael ei ddefnyddio yn y testun

6.1.4 Anghydraddoldebau rhwng y gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a gweithwyr eraill

Mae cryn dystiolaeth bod y sector gofal plant yn ei gyfanrwydd yn profi ystod o anghydraddoldebau o gymharu â rhai sectorau eraill, gan gynnwys cyflog cymharol isel, amodau gwaith gwael a diffyg gwerthfawrogiad o'u rôl[15].

Mae arolwg diweddar o'r gweithlu gofal plant gan Flynyddoedd Cynnar Cymru yn adrodd bod 2.4 aelod o staff (15%), ar gyfartaledd, ym mhob lleoliad yn cael eu cyflogi ar gontractau dim oriau. Mae gan oddeutu hanner y staff gontractau yn ystod y tymor yn unig, mae mwy na 50% o leoliadau'n defnyddio contractau sesiynol ac mae gan 59% o ddarparwyr staff sydd ag ail swydd neu incwm[62].

Mae'r materion hyn yn cael eu cydnabod ledled y Deyrnas Unedig ac fe'u gwaethygwyd gan COVID-19. Mae effaith llai o oriau a gwaith yn ystod y pandemig ac incwm is parhaus yn golygu yr ystyrir bod ysbryd yn eithriadol o isel[18].

Mynegodd rhanddeiliaid bryderon penodol bod niferoedd gwarchodwyr plant wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y gallai fod yn anodd iddynt aros yn hyfyw o ganlyniad i'r estyniad os bydd safonau ar gyfer lleoliadau (e.e. lefelau cymwysterau) yn ei gwneud yn anodd i warchodwyr plant ymwneud ag ymestyn y Cynnig Gofal Plant. Gan fod y rôl hon yn galluogi llawer o fenywod y mae arnynt angen hyblygrwydd wrth weithio ac a allai gael trafferth ddod o hyd i swyddi eraill, mae perygl y gallai hyn gynyddu anghydraddoldebau.

Mae recriwtio a chadw yn broblem yn y sector hefyd[15]. Adroddodd 77% o'r lleoliadau gofal plant a arolygwyd yng Nghymru yn 2022 am anawsterau wrth recriwtio i swyddi a oedd ar gael[62]. Gallai ehangu argaeledd mewn marchnad lafur dynn achosi i fwy o weithwyr symud i ardaloedd cymharol fwy cefnog sy'n gallu cynnig gwell cyflog ac amodau. Gallai hyn fod yn broblem benodol i leoliadau Dechrau'n Deg, sy'n gofyn am gymwysterau uwch ac a fydd yn ehangu i ardaloedd llai difreintiedig. Mae perygl y gallai'r ddarpariaeth fynd yn fwy anghyson mewn ardaloedd lle y ceir mwy o anghenion, gan gynyddu anghydraddoldebau rhwng plant a theuluoedd.

Adroddodd yr un arolwg fod gweithwyr nad ydynt yn oruchwylwyr sydd wedi cymhwyso ar y lefel sy'n ofynnol i weithio mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn derbyn £9.30 yr awr ar gyfartaledd, a bod y rhai llai cymwysedig mewn lleoliadau eraill yn ennill rhwng £7.80 ac £8.70. Mae'r cyfartaledd hwn yn is na'r 'cyflog byw gwirioneddol', sef £9.90, ac mae'n bosibl y gallai nifer sylweddol o weithwyr yn y lleoliadau hyn fod yn derbyn cryn dipyn yn llai na'r ffigur hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r gofyniad bod gweithwyr mewn gofal cymdeithasol yn derbyn y cyflog byw gwirioneddol[63]. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ariannu'r gyfradd fesul awr hon i weithwyr yn rhan o ymestyn darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar[15], er ei bod yn bwysig nodi bod cyd-destun y blynyddoedd cynnar yn yr Alban yn wahanol iawn i Gymru, gan fod cysylltiad agosach rhwng meithrinfeydd dydd ac ysgolion a bod gan awdurdodau lleol a Llywodraeth yr Alban fwy o ddylanwad dros gyflog ac amodau.

Mae cyflog isel, contractau ansicr ac amodau gwaith gwael yn cael effaith hen sefydledig ar anghydraddoldebau iechyd[64]. Awgrymodd arolwg o'r sector gofal plant yn Lloegr ym mis Rhagfyr 2021 fod 16% o leoliadau'n credu bod diffyg staff digonol yn golygu ei bod yn debygol y byddai'n rhaid iddynt gau o fewn 12 mis, a bod diffyg cyllid ar gyfer lleoedd gofal plant yn ffactor allweddol[65].

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymyrryd i reoleiddio contractau yn y sector gofal cymdeithasol hefyd, gan wahardd contractau 'dim oriau'[39]. Mae angen i'r ymyriadau hyn gael eu cynllunio'n fanwl iawn er mwyn deall y canlyniadau mewn marchnad gymhleth, ond fe allent gynnig ffordd o leihau anghydraddoldebau ar gyfer gweithwyr yn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.



Un cyd-destun ar gyfer pryderon ynglŷn â staff yw cynaliadwyedd cyffredinol y sector. Mae data o Loegr yn dangos gostyngiad 19.6% yn nifer y darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar rhwng 2017 a 2022[66]. Er bod gostyngiadau mewn niferoedd darparwyr yn debyg yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, gostyngodd nifer y lleoedd ychydig (-0.8%) ar draws y deg awdurdod lleol mwyaf difreintiedig ond tyfodd 4.4% yn y deg lleiaf difreintiedig[66]. Un dehongliad a ddarparwyd gan y rhai sy'n casglu'r data yw bod lleoliadau mewn ardaloedd llai difreintiedig yn ehangu i fodloni'r galw, ond bod rhaid i'r rhai hynny mewn ardaloedd mwy difreintiedig gyfyngu ar leoedd o ganlyniad i gapasiti.

Mae cyfle i'r bwriad i ehangu Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant wella cyflog, amodau, camu ymlaen mewn gyrfa a chydnabyddiaeth ar gyfer gweithwyr, gan leihau anghydraddoldebau economaidd ac iechyd. Mae cyfleoedd hefyd i godi proffil gweithwyr yn y sector hwn ac amlygu eu cyfraniad. Ond mae perygl y gallai'r estyniad arwain at ofynion uwch ar staff, a mwy o ddefnydd o gontractau ansicr a sesiynol sy'n talu'n isel, gan gynyddu anghydraddoldebau o gymharu â gweithwyr eraill ac o fewn y sector. Mae perygl hefyd y gallai'r materion hyn gael eu dosbarthu'n anghyson ledled Cymru, gan arwain at effaith gynyddol ar anghydraddoldebau rhwng teuluoedd a phlant sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig neu wledig.

6.2 Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, themâu lefel uchel

6.2.1 Mae ansawdd gofal cyson yn cael ei gynnal wrth i'r ddarpariaeth gynyddu

Bydd lleihau'r holl anghydraddoldebau a ddisgrifiwyd yn gofyn am ofal plant o ansawdd uchel. Mae ehangu'r ddarpariaeth yn creu nifer o risgiau yn hyn o beth. Mae ystod o dystiolaeth yn awgrymu bod y farchnad lafur ar gyfer gofal plant eisoes yn dynn, a gallai'r pwysau hyn effeithio'n arbennig ar leoliadau Dechrau'n Deg sy'n gofyn am gymwysterau uwch o gymharu â'r sector cyfan. Gallai ehangu, yn enwedig gan y bydd yn cynyddu'r ddarpariaeth o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig i gynnwys y rhai sy'n llai difreintiedig, ychwanegu at y pwysau hyn ac annog staff i symud i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle y ceir yr anghenion mwyaf, a allai olygu y bydd lleoliadau sy'n anhyfyw mewn perygl o gau. Mae'n bosibl y bydd angen i'r ardaloedd hynny recriwtio staff llai profiadol a/neu wynebu prinder mwy fyth. Mae hefyd yn bosibl y gallai staff gael eu hymestyn, yn enwedig mewn ardaloedd lle y ceir anghenion uchel, gan roi llai o amser iddynt weithio gyda'r plant a allai elwa fwyaf. Mae'r dystiolaeth o anghenion uwch ymhlith plant ar ôl y pandemig yn ffactor ychwanegol sy'n creu perygl o gynyddu anghydraddoldebau. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y bydd dull sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn mynnu bod cymorth o fewn darpariaeth gyffredinol ar gael yn ddwysach i'r rhai hynny â'r anghenion mwyaf.

Gallai problemau yn y farchnad lafur hefyd greu anghydraddoldebau o ran darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg, sy'n elfen graidd o'r polisi. Mae pwysigrwydd sicrhau gweithlu gofal plant y blynyddoedd cynnar sy'n ddigon hyderus i weithio yn Gymraeg wedi cael ei amlygu yng Nghynllun y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar[14] ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yr ymrwymiadau i ofal plant y blynyddoedd cynnar yn y Rhaglen Lywodraethu yn arwain at fuddsoddi mewn ymestyn y gweithlu sy'n siarad Cymraeg, gwella sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu ac agor lleoliadau Cymraeg newydd ledled Cymru.

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i sut y bydd ymestyn y ddarpariaeth yn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau, yn enwedig o ran argaeledd staff mewn ardaloedd lle y ceir yr anghenion mwyaf. Mae'n bosibl y bydd angen ymdrechion cydlynol i gefnogi recriwtio a chadw yn yr ardaloedd hynny, yn enwedig lle y ceir galw uchel am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Argymhellion

- Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i sut y bydd ehangu'r ddarpariaeth yn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau yn yr ardaloedd lle y ceir yr angen mwyaf
- Mae'n bosibl y bydd angen ymdrechion cydlynol i gefnogi recriwtio a chadw yn yr ardaloedd hynny, yn enwedig lle y ceir galw uchel am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg



6.2.2 Ymsefydlu arferion gwaith teg mewn lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar

Mae'r adran flaenorol yn disgrifio'r pwysau y mae'r farchnad lafur dynn yn eu rhoi ar ansawdd gofal yn ystod ehangu, yn enwedig yn ystod argyfwng costau byw. Thema gysylltiedig ond ar wahân yw'r effaith ar staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant. Mae perygl y gallai problemau recriwtio a chadw waethygu yn sgil cynyddu'r ddarpariaeth ac y bydd staff, sydd eisoes yn adrodd yn aml am lefelau uchel o straen o ganlyniad i orlwytho gwaith a thrafferth ymdopi'n ariannol, yn gweld eu hamodau gwaith yn gwaethygu hefyd.

Mae ymestyn y ddarpariaeth yn creu cyfleoedd i ymsefydlu arferion gwaith teg mewn lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar. Gallai'r rhain gynnwys gosod safonau contract, ymrwymo i gyfraddau fesul awr sy'n adlewyrchu'r cyflog byw a chefnogi mwy o bŵer negodi i weithwyr trwy aelodaeth ag undeb.

Recommendations

- Dylai arferion gwaith teg gael eu hymsefydlu mewn amgylcheddau gofal plant trwy osod safonau contract, ymrwymo i gyfraddau fesul awr sy'n adlewyrchu'r cyflog byw a chefnogi mwy o bŵer negodi i weithwyr trwy aelodaeth ag undeb a phartneriaeth gymdeithasol

6.2.3 Tegwch o ran y ddarpariaeth ac ymateb i anghenion lleol

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy ymestyn gofal plant trwy Ddechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant yn dibynnu ar gyfraddau uchel o ddefnydd gan deuluoedd sydd â'r anghenion mwyaf. Mae defnydd anghyfartal o'r Cynnig Gofal Plant presennol wedi cael ei amlygu fel problem[15]. Mae mynediad at Ddechrau'n Deg yn fwy cyson rhwng ardaloedd[4]. Mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y teuluoedd a ddefnyddiodd Ddechrau'n Deg yn 2020-21 yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19, ond nid yw'n glir sut yr effeithiwyd ar batrymau defnydd (er enghraifft, rhwng teuluoedd â gwahanol incwm neu ethnigrwydd), neu beth oedd effaith tymor hwy bosibl y pandemig ar ddefnydd. Felly, mae risgiau sylweddol o fwy o ddosbarthiad anghyfartal yn ystod y broses ehangu.

Un mater a amlygwyd eisoes yw'r posibilrwydd y gallai ehangu gwasanaethau mewn marchnad lafur dynn gymell gweithwyr i symud i ardaloedd mwy cefnog a threfol, gan leihau cydraddoldeb o ran y ddarpariaeth. Gallai hyn waethygu'r sefyllfa i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig sydd eisoes yn wynebu nifer o broblemau wrth gael mynediad at ofal plant, gan gynnwys amserau teithio hwy a chostau tanwydd ac ansicrwydd mewn marchnadoedd swyddi presennol[67]. Mae'r ffaith bod siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf wedi'u crynhoi mewn ardaloedd gwledig yn golygu y gallai'r grŵp hwn hefyd brofi mwy o anghydraddoldebau wrth i'r broses ehangu gael ei gweithredu.

Mae'r teuluoedd a fyddai'n elwa fwyaf o'r cymorth a gynigir gan Ddechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant yn aml yn gweithio (neu'n debygol o fod yn dechrau gweithio) mewn swyddi ag oriau ansafonol ac amodau gwaith ansicr. Gallai lleoliadau gofal plant nad ydynt ar gael ar yr adegau hyn eithrio'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae hyn yn fater heriol i ymestyn y cynnig, gan fod darpariaeth y tu allan i oriau gwaith safonol yn debygol o gynyddu costau'r ddarpariaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiect yn flaenorol sydd wedi sicrhau bod gofal plant yn ystod oriau ansafonol ar gael (adroddwyd i'r Grŵp nad oedd digon o alw i gynnal y ddarpariaeth yn yr achos hwn) ac mae cydweithwyr yn yr Alban wedi nodi bod prosiect peilot gyda sefydliad cymunedol wedi cael ei ffurfio yn rhan o'u cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth, er nad oes gwerthusiad ohono ar gael eto.

Mae teuluoedd sy'n profi'r anghydraddoldebau mwyaf o ran mynediad at waith yn debygol o fod pellaf oddi wrth waith ac addysg. Gallai Dechrau'n Deg gael effaith fwy sylweddol ar anghydraddoldebau na'r Cynnig Gofal Plant gan nad yw'n pennu addysg bresennol neu agosrwydd i waith fel amod i gael mynediad.

Amlygodd rhanddeiliaid ddefnydd anghyson presennol ymhlith pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol, a mynegwyd pryderon y gallai ehangu'r ddarpariaeth waethygu'r mater hwn os nad yw'n adlewyrchu dewisiadau cymunedau lleol. Cyfeiriwyd hefyd at ddiffyg cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant, ac fe'i nodwyd gan randdeiliaid mewn ymarferion casglu tystiolaeth blaenorol[15].

Mae meysydd ffocws i fynd i'r afael â'r risgiau hyn i anghydraddoldebau yn cynnwys:

- **Ystyried y cymorth y mae ei angen ar bobl ar incwm isel sydd ymhellach oddi wrth addysg a gwaith ac felly nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant**
- **Cynnwys cymunedau lleol wrth gydgynhyrchu cynllunio'r ddarpariaeth gofal plant**
- **Treialu a gwerthuso prosiectau gydag oriau agor ansafonol.** Mae'n bwysig bod yr hyn a ddysgir o brosiectau peilot presennol a blaenorol sy'n cynnig oriau gofal plant ansafonol yn cefnogi unrhyw waith ychwanegol yn y maes hwn
- **Monitro proffil staff gofal plant ac annog recriwtio o blith lleiafrifoedd ethnig er mwyn adlewyrchu cymunedau lleol**
- **Cyfathrebu clir a phroffil uchel ynglŷn â'r hyn sydd ar gael i rieni.** Mae proffil a dealltwriaeth annigonol o'r Cynnig Gofal Plant yn arbennig wedi cael ei nodi fel ffactor mewn defnydd anghyson[15]

Argymhellion



- Ystyried y cymorth y mae ei angen ar bobl ar incwm isel sydd ymhellach oddi wrth addysg a gwaith ac felly nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant
- Cynnwys cymunedau lleol wrth gydgynhyrchu ehangu'r ddarpariaeth gofal plant trwy gymryd rhan mewn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant Awdurdodau Lleol
- Sicrhau bod lleoliadau gofal plant yn gallu cynorthwyo teuluoedd lle mae'r rhieni'n gweithio oriau ansafonol
- Monitro proffil staff gofal plant ac annog recriwtio o blith lleiafrifoedd ethnig fel bod y ddarpariaeth gofal plant yn adlewyrchu cymunedau lleol
- Cyfathrebu clir a phroffil uchel ynglŷn â'r hyn sydd ar gael i rieni

6.2.4 Pontio rhwng gofal plant a'r ysgol yn darparu cysondeb

Mae'r cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth gofal plant ac ysgolion yn elfen arall o integreiddio. Mae'r ddarpariaeth bresennol, yn enwedig diffyg cysylltiadau clir rhwng Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant, yn creu cymhlethdod i rieni sy'n gallu rhwystro cysondeb darpariaeth,15 sydd o'r pwys mwyaf i bobl sy'n gweithio neu'n ceisio gwaith. Mae gofal plant integredig syml yn ganolog i'r 'dull Nordig' o ofal plant68 sy'n cefnogi lefelau uchel o gyflogaeth, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei fod yn fodel pwysig15. Mae'r rhai hynny sy'n profi anghydraddoldebau, yn enwedig anghydraddoldebau economaidd, yn fwy tebygol o brofi ansefydlogrwydd yn eu bywydau gwaith (e.e. ymuno â'r gweithlu, newid swyddi, newid patrymau gweithio). Felly, bydd eglurder a pharhad o ran gwasanaethau yn lleihau'r anghydraddoldebau a brofir ganddynt.

Nododd rhanddeiliaid hefyd fod cysylltiadau gwael rhwng gofal plant ac ysgolion yn gyffredinol, sy'n golygu bod anghenion plant yn llithro trwy'r rhwyd fel arfer wrth bontio. Byddai'r rhai hynny ag anghenion datblygiadol yn elwa o gysondeb mewn cymorth cynnar ac maen nhw'n fwy tebygol o fod yn perthyn i deuluoedd sy'n profi amddifadedd.

Mae sicrhau bod gwahanol gynigion a darpariaeth ar gyfer gofal plant y blynyddoedd cynnar yn cydweithio'n effeithiol, a bod y rhai a allai elwa fwyaf ohonynt yn eu deall, yn bwysig er mwyn lleihau anghydraddoldebau. Yn y tymor hwy, byddai cynnig unigol integredig yn cynyddu effeithiolrwydd i'r eithaf wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae cymorth gwell wrth bontio rhwng lleoliadau gofal plant a'r ysgol hefyd yn debygol o leihau anghydraddoldebau, a dylid ystyried opsiynau fel creu templed cyffredinol ar gyfer cyfathrebu a throsglwyddo rhwng gofal plant ac ysgolion.

Argymhellion



- Sicrhau bod gwahanol gynigion a darpariaeth ar gyfer gofal plant y blynyddoedd cynnar yn cydweithio'n effeithiol a bod y rhai a allai elwa fwyaf ohonynt yn eu deall
- Archwilio opsiynau ar gyfer cynnig gofal plant unigol ac integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar i deuluoedd
- Gwella'r cysylltiadau rhwng lleoliadau gofal plant ac ysgolion, gan archwilio opsiynau fel templed cyffredinol ar gyfer cyfathrebu a throsglwyddo

6.2.5 Mae staff a gwasanaethau sy'n gweithio ar draws y blynyddoedd cynnar yn gallu cynorthwyo plant i fod yn iach a chael at ystod o wasanaethau iechyd a chymdeithasol priodol

Dangosodd gwerthusiadau o Ddechrau'n Deg50 a barn rhanddeiliaid fod natur integredig y rhaglen yn gryfder allweddol, gan wella mynediad at ddarpariaeth arbenigol trwy'r rhaglen (e.e. cymorth magu plant) a thrwy gysylltiadau â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Cydnabuwyd hyn yn arbennig gan y rhai hynny o grwpiau a allai gael trafferth delio â gwasanaethau am amrywiaeth o resymau yn ymwneud ag anghydraddoldebau, gan gynnwys sgiliau iaith Saesneg a diffyg hyder neu wybodaeth wrth lywio'r 'system'.

Mae'n bwysig bod y gallu i gynnig cymorth o'r math hwn yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal drwy gydol y broses o ymestyn Dechrau'n Deg. Nododd rhanddeiliaid hefyd fod gweithwyr gofal plant, fel gweithwyr proffesiynol yr ymddiriedir ynddynt sy'n dod i gysylltiad â phlant yn aml, mewn sefyllfa dda i hwyluso mynediad at gymorth datblygiadol. Dywedodd rhanddeiliaid hefyd fod ystod eang o rwydweithiau'n bodoli mewn llawer o ardaloedd i ddarparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys y cysylltiadau a ddatblygir yn anffurfiol gan dimau o ymwelwyr iechyd a rhwydweithiau Presgripsiynu Cymdeithasol Clystyrau Meddygon Teulu. Mae gwaith y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy wrth achredu lleoliadau sy'n gweithio i hybu iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol hefyd yn darparu dull o wella gwybodaeth, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad er mwyn gwella iechyd.

Mae gwerth cynnwys cymunedau mewn cynllunio, a nodwyd eisoes, yn berthnasol yma er mwyn datblygu dealltwriaeth gyson o ba wasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n lleol. Gallai cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol i gynhyrchu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ddarparu fframwaith i ymgorffori'r safbwyntiau hyn.

Gallai cymorth i fapio rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol yn lleol ac i weithwyr a lleoliadau gofal plant gael mynediad at y rhwydweithiau hynny leihau anghydraddoldebau.

Mae cymorth parhaus i'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn debygol o leihau anghydraddoldebau iechyd os gall y cynllun ymgysylltu'n effeithiol â lleoliadau mewn ardaloedd lle y ceir anghenion uwch.

Argymhellion



- Darparu offer a chymorth i weithwyr a lleoliadau gofal plant i fapio a chael mynediad at rwydweithiau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol ac anffurfiol fel presgripsiynu cymdeithasol gofal sylfaenol lleol
- Parhau i gefnogi'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy i weithio gyda lleoliadau presennol a newydd er mwyn datblygu gwybodaeth, arweinyddiaeth ac ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau ynglŷn â byw'n iach

6.2.6 Mae rhieni'n teimlo bod gwasanaethau'n gefnogol ac yn ymatebol

Cyfeiriodd y rhai hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau sy'n profi anghydraddoldebau at bwysigrwydd y ffordd y mae llunwyr polisïau a'r rhai sy'n rheoli ac yn darparu gofal plant yn defnyddio iaith. Mae llawer o'r dulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn lleoliadau gofal plant yn dibynnu ar ddatblygu ymddiriedaeth. Siaradodd rhanddeiliaid am bwysigrwydd sicrhau bod rhieni'n teimlo bod y gwasanaeth 'ar eu hochr nhw' o'r dechrau ac na fyddai'n barnu nac yn stereoteipio. Er enghraifft, dywedodd rhanddeiliaid nad oedd bob amser yn glir beth oedd termau fel 'magu plant yn gadarnhaol' yn ei olygu, a gellid tybio eu bod yn ffordd i wasanaethau gategoreiddio rhieni 'da' neu 'ddrwg', yn hytrach nag ymgais i ddisgrifio mathau o ymddygiadau mewn ffordd niwtral.

Mae'n bwysig bod cyfathrebu ynglŷn â darpariaeth a buddion gofal plant, ac arweiniad i weithwyr proffesiynol ar gynorthwyo rhieni, yn defnyddio diffiniadau clir a chyson a bod y rhain yn osgoi stigmateiddio'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Argymhelliad

- Dylai cyfathrebu ynglŷn â darpariaeth a buddion gofal plant, ac arweiniad i weithwyr proffesiynol, ddefnyddio diffiniadau clir a chyson nad ydynt yn stigmateiddio a ddatblygwyd gyda rhanddeiliaid



07 DAMCANIAETHAU NEWID

Mae Damcaniaeth Newid yn fodel o ganlyniadau a ddymunir a'r amodau y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol er mwyn cyflawni canlyniad. Mae'n cynnwys proses gyfranogol drwyadl gyda rhanddeiliaid i fodelu'r canlyniadau a'r amodau fel rhwydwaith achosol. Mae'r cyfranogwyr hefyd yn ystyried tybiaethau, dangosyddion, ymyriadau a dulliau o gyflawni'r canlyniadau. Datblygwyd y Damcaniaethau Newid cyflawn ar gyfer pob maes polisi gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, fe'u rhannwyd gyda chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru yn ystod y broses ddatblygu ac mae'r fersiynau terfynol ar gael ar wahân.

Dangosir y mapiau canlyniadau ar gyfer y Damcaniaethau Newid yn yr adrannau canlynol.



7.1 Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd



7.2 Darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar





08 ASESIADAU O'R EFFAITH AR IECHYD

Cynhaliwyd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gyda chymorth Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU), Cyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Amlygwyd grwpiau o'r boblogaeth y mae'r polisïau'n debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol arnynt gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Yna, amlygodd y Grŵp sefydliadau a oedd yn cynrychioli neu'n eirioli ar ran y grwpiau hyn o'r boblogaeth i gyfrannu at y gweithdai rhanddeiliaid. Cynhaliwyd gweithdai ar 17 Mehefin (Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd) a 23 Mehefin (Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar).



Casglwyd tystiolaeth o'r canlynol:

- Gwerthusiadau o Ddechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant
- Gwerthusiadau o raglenni tebyg yng Nghymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys darparu brecwastau am ddim mewn ysgolion yng Nghymru, Cychwyn Cadarn yn Lloegr a chyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i'r Holl Fabanod yn Lloegr a'r Alban
- Adolygiadau o dystiolaeth a gynhaliwyd gan Wasanaeth
- Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn ag effaith prydau ysgol am ddim a gwasanaeth ymwelwyr iechyd gwell ar anghydraddoldebau s
- Adolygiadau perthnasol o dystiolaeth a gynhaliwyd o fewn Llywodraeth Cymru
- Ymchwil ac adroddiadau a amlygwyd gan aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Cyflwynir crynodebau o ganfyddiadau allweddol pob Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn yr adrannau canlynol.

8.1 Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd



Y farn gyffredin ymhlith y cyfranogwyr oedd mai'r rhai sy'n byw gydag amddifadedd yw'r grŵp yr effeithir arno fwyaf, a disgwylir i'r effaith fod yn gadarnhaol. Cydnabuwyd bod nifer sylweddol o blant nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd mewn angen ac y byddent yn elwa'n fawr.

Byddai'r newid i wasanaeth cyffredinol yn fuddiol iawn i rai grwpiau ag anghenion arbennig o uchel, gan gynnwys y rhai hynny heb hawl i gyllid cyhoeddus a phlant sy'n derbyn gofal.

Bydd y polisi'n darparu bwyd i nifer fawr o blant y mae eu teuluoedd yn gallu talu am bryd o fwyd ar hyn o bryd neu y gallent wneud hynny. Mae'r effaith wahaniaethol ar y grŵp hwn a'r rhai sy'n byw gydag amddifadedd yn anodd ei rhagfynegi, ond mae tystiolaeth o werthusiadau'n awgrymu bod anghydraddoldebau'n lleihau ar draws ystod o fesurau, at ei gilydd.

Aseswyd y byddai effaith ar y grwpiau canlynol hefyd:

- plant a rhieni mewn teuluoedd sy'n gymwys ar hyn o bryd (sy'n debygol o gael budd cymedrol i fawr)
- plant a rhieni mewn teuluoedd sydd newydd ddod yn gymwys ac nad ydynt mewn angen (sy'n debygol o elwa, ond gydag effaith negyddol leiafsymiol i gymedrol ar anghydraddoldebau)
- plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol (perygl o effaith negyddol gymedrol)
- plant LHDTC+ (lleiafsymiol: cyfle i elwa ond perygl o ganlyniadau negyddol hefyd)
- plant ag anableddau a'r rhai hynny ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (effaith negyddol leiafsymiol)
- gweithlu arlwyo ysgolion (effaith fawr: cyfleoedd i elwa, ond perygl effaith negyddol hefyd)

For parents and families the assessment suggested reducing the cost of childcare for more families would reduce income inequalities and that increasing availability of childcare would enhance capabilities to access and exercise choice over work, education and other services.



Ystyriwyd bod darpariaeth gyffredinol yn debygol iawn o leihau stigma: disgwylir i hyn arwain at fuddion clir o ran lles meddyliol a buddion posibl o ran presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad i'r rhai mewn angen.

Ystyrir yn aml bod y ddarpariaeth bresennol yn achosi straen: gan fod y gofynion ar gyfer trosiant cyflym yn cyfyngu ar gyfleoedd i chwarae, cymdeithasu a mwynhau prydau bwyd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn creu anghydraddoldebau ac mae perygl y gallai cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim gynyddu'r anghydraddoldebau hyn.

Materion gweithredu: mae cyfleoedd clir i'r polisi gael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldebau mewn meysydd mor amrywiol â'r gweithlu arlwyo ysgolion, yr economi sylfaenol leol a chynaliadwyedd cymunedol, ond mae peryglon hefyd yn y meysydd hyn.

8.2 Darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cynyddu cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac ar gyfer darpariaeth gofal plant i blant 2-3 oed yn rhan o ehangu Dechrau'n Deg yn debygol o leihau anghydraddoldebau rhwng plant a theuluoedd ar gyfer y rhai sydd mewn angen a'r rhai sydd newydd ddod yn gymwys.

O ran plant, awgrymodd yr asesiad y bydd **gostyngiad mewn anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â datblygiad a chymdeithasu.**

O ran plant a theuluoedd, awgrymodd yr asesiad y byddai **lleihau cost gofal plant i fwy o deuluoedd yn lleihau anghydraddoldebau incwm** ac y byddai **cynyddu argaeledd gofal plant yn gwella'r gallu i ddewis a chael mynediad at** waith, addysg a gwasanaethau eraill.

Mae **parhad a hyblygrwydd** yn arbennig o bwysig i fodloni anghenion rhieni sy'n gweithio oriau ansafonol ac sydd mewn swyddi ansicr.

Gallai **cynllunio gwasanaethau gofal plant i adlewyrchu anghenion lleol** wella'r effeithiau cadarnhaol a lleihau neu liniaru risgiau effeithiau negyddol ar gyfer grwpiau penodol, gan gynnwys y rhai hynny mewn ardaloedd gwledig, y rhai hynny sy'n ffafrio gofal plant cyfrwng Cymraeg a'r rhai hynny o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Mae ehangu'r ddarpariaeth yn peryglu cynyddu anghydraddoldebau rhwng y gweithlu a sectorau eraill a rhwng ardaloedd gwledig a threfol ac ardaloedd mwy a llai difreintiedig, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol.



Mae grwpiau eraill a amlygwyd yn cynnwys:

- Plant ag anableddau, plant ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd (buddion cymedrol tebygol, ond posibilrwydd o effeithiau negyddol cymedrol hefyd)
- Plant a theuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol (effaith gadarnhaol gymedrol debygol, ond effeithiau negyddol cymedrol posibl hefyd)
- Teuluoedd LHDTC+ (effeithiau cadarnhaol a negyddol lleiafsymiol posibl)
- Teuluoedd Cymraeg eu hiaith (buddion mawr posibl; risg bosibl o effeithiau negyddol cymedrol hefyd)
- Teuluoedd sy'n byw mewn lleoliadau gwledig (buddion mawr yn debygol; risg bosibl o effeithiau negyddol cymedrol hefyd)

09 MONITRO A GWERTHUSO



Mae'r polisïau hyn yn cynrychioli buddsoddiad mawr gan Lywodraeth Cymru a fydd yn effeithio ar nifer sylweddol o blant a theuluoedd yng Nghymru. Maen nhw hefyd yn golygu bod Cymru yn arwain y ffordd o ran polisïau prydau ysgol a gofal plant y blynyddoedd cynnar. Mae'n bwysig bod trefniadau monitro a gwerthuso cadarn yn cyd-fynd â'r broses weithredu er mwyn deall eu heffeithiau ar y boblogaeth ac arwain y broses datblygu a chyflwyno fesul cam.

O ystyried cymhlethdod y rhaglenni, awgrymwn fod Is-grŵp Monitro a Gwerthuso yn cael ei ffurfio i helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen monitro a gwerthuso.

Argymhelliad

- Mae 'Is-grŵp Monitro a Gwerthuso' yn cael ei ffurfio i helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen monitro a gwerthuso

9.1 Dull

Er mwyn helpu i fonitro a gwerthuso'r polisïau'n effeithiol o ran anghydraddoldebau, rydym wedi ceisio:

- Amlygu modelau a dyluniadau a ddefnyddiwyd gan werthusiadau o raglenni tebyg
- Amlygu canlyniadau allweddol ar gyfer gwerthuso, yn seiliedig ar y Damcaniaethau Newid
- Amlygu'r data sy'n ofynnol
- Amlygu data perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd
- Amlygu data perthnasol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd

Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i gasglu gwybodaeth am faterion allweddol a dulliau, gan gynnwys:

- Timau polisi a gwerthuso yn Llywodraeth Cymru
- Cydweithwyr ymchwil a gwerthuso yn Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Partneriaid academaidd yng Nghymru
- Timau gwerthuso mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig sydd â phrofiad perthnasol o werthuso rhaglenni tebyg

9.2 Canlyniadau

Mae gwaith yn ymwneud ag anghydraddoldebau wedi canolbwyntio ar werthuso canlyniadau, yn y tymor hwy yn nodweddiadol (3-5 mlynedd). Mae hyn yn canolbwyntio ar effeithiau tymor hwy sy'n gysylltiedig ag amcanion polisïau, fel lleihau anghydraddoldebau economaidd, iechyd ac addysgol. Cynhelir gwerthusiad o'r broses hefyd mewn rhai meysydd, i ddisgrifio allbynnau fel defnydd o wasanaethau yn y tymor byr (0-2 flynedd). Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar opsiynau ar gyfer gwerthuso canlyniadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig amlygu cyfleoedd ar gyfer integreiddio er mwyn cynyddu gwerth gwerthuso a lleihau gorgyffyrddiad i'r eithaf.

Mae'r canlyniadau lefel uchel y mae'r rhaglen hon yn ceisio mynd i'r afael â nhw o ran anghydraddoldeb wedi cael eu hamlinellu yn Adrannau 5 a 6:

O ran prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd:

- Anghydraddoldebau economaidd rhwng teuluoedd
- Anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad academaidd a phresenoldeb rhwng plant
- Anghydraddoldebau mewn iechyd a lles rhwng plant a theuluoedd
- Anghydraddoldebau o fewn/rhwng cymunedau lleol
- Anghydraddoldebau rhwng y gweithlu arlwyo ysgolion a gweithwyr eraill

O ran gofal plant y blynyddoedd cynnar:

- Anghydraddoldebau economaidd rhwng teuluoedd
- Anghydraddoldebau iechyd rhwng plant
- Anghydraddoldebau mewn datblygiad, paratoi ar gyfer addysg gynnar a'r ysgol a chanlyniadau addysgol tymor hwy rhwng plant
- Anghydraddoldebau rhwng gweithlu gofal plant y blynyddoedd cynnar a gweithwyr eraill

Mae'r ddamcaniaeth newid hefyd yn amlygu canlyniadau ac allbynnau sy'n berthnasol i werthuso. Mae timau polisi Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar UPFSM wedi rhannu eu gwaith ar fodel rhesymeg hefyd. Bydd cytuno ar y canlyniadau cynradd ac eilaidd, a mireinio ac integreiddio modelau rhesymeg yn flaenoriaethau ar gyfer y gwaith hwn.

9.3 Dylunio gwerthusiad

Mewn astudiaethau blaenorol, defnyddiwyd dau ddull methodolegol cyffredinol i werthuso canlyniadau rhaglenni presennol neu debyg:

- **Canlyniadau lefel ardal.** Mae'r rhain yn ystyried yr effaith ar y boblogaeth darged yr oedd y polisi/rhaglen ar gael iddi, ni waeth p'un a fanteisiodd arno/arni (h.y. wedi derbyn pryd ysgol neu ddefnyddio Dechrau'n Deg neu'r Cynnig Gofal Plant). Mae hyn yn adlewyrchu nod polisi ymyrraeth ar lefel y boblogaeth ac mae'n arbennig o bwysig o ystyried uchelgeisiau i symud tuag at argaeledd cyffredinol yn y tymor hwy. Mae hefyd yn bwysig cofnodi effeithiau a allai weithredu ar lefel y boblogaeth, fel canfyddiadau o brydau ysgol
- **Canlyniadau lefel unigol.** Mae'r rhain yn ystyried yr effaith ar unigolion sy'n manteisio ar y cynnig mewn gwirionedd. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar yr 'elfennau gweithredol': er enghraifft, cael pryd ysgol maethlon neu brofi gofal plant o fewn Dechrau'n Deg

Mae mwyafrif y gwerthusiadau perthnasol wedi defnyddio dull seiliedig ar ardal. Mae hyn yn adlewyrchu nodau gwerthuso, ond mae hefyd yn aml yn brin o'r data cysylltiol sy'n angenrheidiol i nodi unigolion. O fewn y rhaglenni hyn, disgwylir i fonitro a gwerthuso ar lefel ardal fod y dull mwyaf defnyddiol oherwydd deëllir mai lefel y boblogaeth yw'r lefel bwysicaf y bydd y polisïau hyn yn gweithredu arni i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Fodd bynnag, gallai gwerthusiad ar lefel unigol gynnig gwybodaeth am ganlyniadau aelwydydd a chanlyniadau tymor hwy sy'n helpu i ddatblygu'r polisïau i fod yn fwyaf effeithiol wrth fynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol.



9.4 Grwpiau cymharu a dylunio gwerthusiad

Mae gwerthuso canlyniadau'n gadarn dros amser fel arfer yn dibynnu ar allu cymharu grŵp y mae buddion y polisi ar gael iddo ac un nad ydynt ar gael iddo. Mae gwahaniaethau o ran graddfeydd amser cyflwyno darpariaeth gyffredinol ar draws y ddau faes polisi'n golygu y gallai gwahanol ddyluniadau gwerthuso fod yn briodol ym mhob maes.

Mae nifer o ddulliau o ddylunio gwerthusiad i ddarparu grwpiau cymharu.

Ar lefel ardal, **mae'r gwerthusiad mwyaf cadarn yn bosibl pan ellir dewis gweithredu polisïau ar hap yn ôl ardal.** Y ffordd fwyaf effeithiol o leiafu tueddiadau sy'n gallu effeithio ar gymariaethau rhwng grwpiau yw dewis ardaloedd ar hap i dderbyn a pheidio â derbyn y polisïau.

Cydnabyddir bod dewis ar hap yn anodd am nifer o resymau, gan gynnwys canfyddiadau o degwch a gofynion gweithredol yn ymwneud â gweithredu. Fodd bynnag, credwn ei bod yn werth archwilio opsiynau, yn enwedig o ran proses ehangu Dechrau'n Deg, sy'n debygol o gael ei gweithredu dros gyfnod hwy.

Ail ddull yw cymharu ardaloedd cyn ac ar ôl eu dewis ar hap, neu gymharu ardaloedd sy'n derbyn yr estyniad ar adegau gwahanol. Mae'r dull hwn yn dibynnu ar y ffaith bod y broses weithredu'n egluro'r hyn sydd ar gael, pryd, i bwy ac ym mha ardal, a phan fydd yn gyson o ran yr hyn sydd ar gael.

Mae'r dull hwn fel arfer yn dibynnu ar gael setiau data presennol cyson i'w defnyddio. Pan nad oes data arferol ar gael ar gyfer ardaloedd cyn gweithredu, mae rhai gwerthusiadau wedi defnyddio data o garfanau ymchwil fel Astudiaeth Carfan y Mileniwm. Mae hyn yn dibynnu ar y ffaith bod carfan ddigon mawr ar gael, ynghyd â data a gasglwyd dros gyfnod priodol. Mae hefyd yn cyflwyno cymhlethdod ychwanegol, oherwydd efallai na fydd y data a gasglwyd ar y carfanau hynny'n cyfateb yn union i'r data a ddymunir gan y gwerthusiad.

Wrth i'r gwerthusiad ddatblygu, bydd angen ystyried eglurder ynglŷn â grwpiau cymharu a'r materion sy'n gysylltiedig â chasglu data perthnasol.

9.5 Data a chysylltu

Mae archwilio gofynion ac argaeledd data cyn gynted â phosibl a chymryd camau i gasglu a rhannu data hanfodol, lle y bo'n bosibl, yn allweddol i gefnogi gwerthuso effeithiol. Er mwyn gallu canfod yr effaith ar y prif ganlyniad, a gwahaniaethau rhwng grwpiau ledled Cymru, **mae datblygu a gweithredu dull systematig, canolog o gasglu set ddata ofynnol safonedig yn flaenoriaeth.**

Mae angen i'r gofynion data, yr amlder, a'r dull adrodd fod yn gymesur â nodau'r gwerthusiad. Mae'n rhaid i'r angen am wybodaeth gael ei gydbwyso yn erbyn heriau logistaidd casglu data mewn amgylchedd ysgol gynradd.

Mae cyfleoedd i ddefnyddio data sydd wedi'u cysylltu ar lefel unigol yn berthnasol i strategaethau gwerthuso hefyd. Mae'r banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yn cynnwys nifer fawr o setiau data sydd wedi'u cysylltu ar lefel unigol. Mae nifer o'r setiau data hyn yn berthnasol i werthuso'r polisïau hyn, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, cofnodion gofal, derbyniadau i'r ysbyty a phresenoldeb mewn adrannau brys.

Mae data am y rhai sy'n gymwys ac yn derbyn darpariaeth yn amrywio rhwng y gwahanol raglenni:

- O ran prydau ysgol, mae data am gymhwysedd ar gael ar lefel unigol. Er y bydd y ddarpariaeth yn gyffredinol bellach, mae Awdurdodau Lleol yn parhau i gynnal cofnodion o blant a fyddai'n gymwys ac annog rhieni i gofrestru cymhwysedd o dan drothwyon blaenorol, gan fod hyn yn caniatáu iddynt gael mynediad at grantiau eraill
- O ran y Cynnig Gofal Plant, mae data ar lefel unigol yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol ond dim ond nifer fach o eitemau data (dyddiad geni a chod post) sydd ar gael yn gyson. Nid yw'n glir p'un a ellid cysylltu'r data hyn consistently available. It is not clear that these data could be linked
  - Mae data ar lefel awdurdod lleol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant wedi cael eu cofnodi yn SAIL ar gyfer prosiectau gwerthuso penodol. Felly, fe allai gwerthuso lleol fod yn bosibl, ond ni ddisgwylir y bydd data cysylltiol ar raddfa genedlaethol ar gael o fewn graddfa amser berthnasol
- O ran Dechrau'n Deg, mae data ar lefel unigol yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol ac mae data cyfanredol ar gael i Lywodraeth Cymru
  - Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol i sicrhau bod data ar lefel unigol ar gael o fewn SAIL, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i archwilio opsiynau ar gyfer sicrhau bod y data hyn ar gael yn ehangach ac yn fwy cyson. Fodd bynnag, ni ddisgwylir y bydd data cenedlaethol ar gael yn gyson yn y dyfodol agos
  - Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg hefyd wedi gweithio i gynnwys data awdurdod lleol, gan gynnwys Dechrau'n Deg, yn SAIL yn rhinwedd ei rôl fel sefydliad braenaru yn rhan o'r Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar

Mae ystod o ddata nad ydynt ar gael ar lefel unigol ar hyn o bryd sy'n ofynnol i werthuso'r canlyniadau a amlygwyd. Mae'r rhain yn cynnwys incwm teuluoedd ac asesiadau teuluoedd a phlant o'u lles. Yn nodweddiadol, mae gwerthusiadau mawr yn y Deyrnas Unedig wedi defnyddio gwaith maes ymhlith sampl o'r rhai sy'n gymwys ar gyfer y rhaglenni tebyg. Mae'n debygol y byddai angen defnyddio dull tebyg i fynd i'r afael â rhai o'r canlyniadau allweddol ar gyfer y polisïau hyn.

10 CASGLIADAU

Mae'r adroddiad hwn wedi defnyddio llawer o ffynonellau tystiolaeth, a safbwyntiau o amryw ddisgyblaethau ac asiantaethau yng Nghymru, i amlygu sut y gellir gweithredu polisïau i ymestyn prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd a gwneud gofal plant y blynyddoedd cynnar ar gael yn gyffredinol, mewn ffordd sy'n osgoi, lliniaru a lleihau anghydraddoldebau.

Mae Damcaniaethau Newid yn dangos llwybrau sy'n effeithio ar degwch i blant, teuluoedd, gweithwyr a chymunedau ehangach. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd wedi amlygu sut gall y polisïau hyn gael effeithiau gwahanol ar grwpiau gwahanol.

Gwnaethom amlygu themâu anghydraddoldeb, gan gynnwys yr argyfwng costau byw, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn systemau cymhleth ac anghydraddoldebau rhwng y rhywiau. Roedd tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch yn gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim yn cynnwys anghydraddoldebau economaidd, iechyd, cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb, a'r gweithlu, ynghyd ag anghydraddoldebau o fewn a rhwng cymunedau.

Roedd tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau tegwch yn gysylltiedig â darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar yn cynnwys anghydraddoldebau economaidd, iechyd, datblygiad plant, cyrhaeddiad addysgol diweddarach, a'r gweithlu.



Rydym wedi amlinellu pedair blaenoriaeth strategol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau wrth weithredu'r polisïau hyn:

- **Dylai cyffredinoledd cymesur arwain cynllunio**
- **Mae darpariaeth o ansawdd uchel yn hanfodol**
- **Dylai cydgynhyrchu fod yn ganolog i weithredu lleol**
- **Ystyrir bod iechyd a lles presennol plant yr un mor bwysig o leiaf â'u hiechyd a'u lles pan fyddant yn oedolion**

Bydd gosod yr egwyddorion hyn wrth wraidd gweithredu yn hanfodol i effeithiolrwydd y polisïau hyn wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a pheidio â'u cynyddu.

Yn ogystal, gwnawn argymhellion ynglŷn â phob maes polisi, yn ogystal ag ar gyfer gwerthuso. Mae'r polisïau hyn yn golygu bod Cymru yn arwain y ffordd wrth lunio polisïau prydau ysgol am ddim a gofal plant y blynyddoedd cynnar. Bydd trefniadau monitro a gwerthuso cadarn y darparwyd digon o adnoddau ar eu cyfer yn hanfodol i ddangos eu heffaith a sicrhau bod pobl Cymru yn cael y budd mwyaf o'r polisïau hyn a bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu.

Yn seiliedig ar nifer o ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau amryw ddisgyblaethau ac asiantaethau yng Nghymru, credwn y bydd y ffordd y gweithredir y polisïau hyn yn allweddol i'w heffaith ar degwch.

11 ATODIAD 1: AELODAETH Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN A DIOLCHIADAU

Sue Evans, Cadeirydd	Gofal Cymdeithasol Cymru
Chris Emmerson, Arweinydd y Prosiect	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Andrea Parr, Cydlynydd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Troy Wey, Ymchwilydd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Emily Treharne, Gweinyddydd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Samia Addis	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Launa Anderson	Llywodraeth Cymru
Ella Davidoff	Llywodraeth Cymru
Catherine Davies	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Sharon Davies	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Siân Davies	Mencap Cymru
Julie Evans	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nicola Evans	Llywodraeth Cymru
Liz Green	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ellie Harwood	Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Gemma Halliday	Gofal Cymdeithasol Cymru
Darren Hughes	Conffederasiwn GIG Cymru
Dr Ciarán Humphreys	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Karen Jewell	Llywodraeth Cymru
Dr Ilona Johnson	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Paul Lewis	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Nesta Lloyd-Jones	Conffederasiwn GIG Cymru
Marianne Mannello	Chwarae Cymru
Daljit Kaur Morris	Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Dr Amy McNaughton	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Roisin O'Brien	Llywodraeth Cymru
Sean O'Neill	Plant yng Nghymru
Beth Preece	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Jason Rawbone	Llywodraeth Cymru
Judith Stone	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Siân Williams	Llywodraeth Cymru
Carwyn Wycherley	Llywodraeth Cymru

Hoffem ddiolch i'r sefydliadau hynny a gyfrannodd at yr Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd:

Barnardo's
Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Clybiau Plant Cymru
Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
Blynyddoedd Cynnar Cymru
Rhwydwaith Enfys, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Tîm Polisi Dechrau'n Deg, Llywodraeth Cymru
Y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) yng Nghymru
Race Council Cymru
Stonewall Cymru

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r canlynol, a roddodd gyngor a chymorth yn ystod y broses o ddatblygu'r gwaith hwn:

- Liz Green, Nerys Edmonds, Lee Parry Williams, Kathryn Ashton, Laura Evans a Michael Fletcher o Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru, Cyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Alisha Davies, Hannah Shaw a Dr Kirsty Little o'r Gyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Staff a disgyblion Ysgol Cwm Brombil, a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant am hwyluso'r ymweliad
- Yr Athro Kevin Morgan, Ysgol Busnes Caerdydd
- Mike Brewer, Sefydliad Resolution
- Eleanor Messham a Cathrine Winding am gymorth wrth olygu'r adroddiad a datblygu ffeithluniau

12 CYFEIRIADAU

1.Grŵp Cydlynu Creu Cymru Iachach. *Cefnogi Polisi ar gyfer Tegwch Iechyd, Cynllun Arfaethedig ar gyfer y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.*

2. Llywodraeth Cymru. *Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru.;* 2022. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-07/welsh-government-annual-report-2022-v2.pdf

3. Llywodraeth Cymru. Ystadegau cyfrifiad ysgolion. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2021. https://gov.wales/schools-census-results-april-2021

4. Llywodraeth Cymru. *Dechrau'n Deg: Mis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021.* https://gov.wales/flying-start-april-2020-march-2021-html

5. Glyn E, Harries S, Lane J, Lewis S. *Gwerthusiad o Flwyddyn 4 y Cynnig Gofal Plant, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Adroddiad Rhif 10/2022.*; 2022. https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-02/evaluation-of-year-4-of-the-childcare-offer.pdf

6. Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth gan Lywodraeth Cymru drwy'r argyfwng costau byw. https://gov.wales/written-statement-welsh-government-support-through-cost-living-crisis

7. Dyakova M, Couzens L, Allen J, et al. *Placing Health Equity at the Heart of the COVID-19 Sustainable Response and Recovery: Building Prosperous Lives for All in Wales.*; 2021. doi:ISBN 978-1-78986-154-334

8. Ifan G, Sion C. *Cut to the Bone? An Analysis of Local Government Finances in Wales, 2009-10 to 2017-18 and the Outlook to 2023-24.*; 2019. https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0010/1448920/local_government_finance_report_Feb19_final.pdf

9. Swyddfa Ystadegau Gwladol; Cyllid a Thollau EF. Enillion a chyflogaeth o Wybodaeth Amser Real Talu Wrth Ennill, y Deyrnas Unedig. https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/july2022

10. Llywodraeth Cymru. Canllawiau Rhaglen Iechyd Dechrau'n Deg. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2017. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-health-programme-guidance_0.pdf

11. Llywodraeth Cymru. Cynnig Gofal Plant Cymru, Canllawiau i Awdurdodau Lleol. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2021. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/childcare-offer-for-wales-guidance-for-local-authorities.pdf

12. Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Estyn yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2022. https://gov.wales/written-statement-extending-free-school-meal-entitlement-all-primary-school-children

13. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nifer amcangyfrifedig y teuluoedd unig riant benywaidd (plant dibynnol a heb fod yn ddibynnol) yn ôl rhanbarthau Lloegr a'r gwledydd sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig, 1996 i 2017. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2018. https://rb.gy/psmotn

14. Llywodraeth Cymru. *Cynllun y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar.* Llywodraeth Cymru; 2017. http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young

15. Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. *Minding the Future: The Childcare Barrier Facing Working Parents.*; 2022. https://senedd.wales/media/1xhnsa5p/cr-ld14896-e.pdf

16. Llywodraeth Cymru. *Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu Cydraddoldeb.*; 2020. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-04/strategic-equality-plan-equality-aims-objectives-actions-2020-2024.pdf

17. Bonetti S, Cooper K. *Adolygiad Annibynnol: Cofrestriad y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Adroddiad Rhif 52/2022.*; 2022. Cyrchwyd 17 Gorffennaf 2022. https://gov.wales/registration-childcare-play-and-early-years

18. Hardy K, Tomlinson J, Norma H, Cruz K, Whittaker X, Archer N. *Essential but Undervalued: Early Years Care & Education during COVID-19.;* 2022. https://childcare-during-covid.org/wp-content/uploads/2022/02/CDC-19-Final-report.pdf

19. Holford A, Rabe B. *Impact of the Universal Infant Free School Meal Policy.*; 2020. https://www.nuffieldfoundation.org/wp-content/uploads/2019/11/ISER_Impact_of_the_Universal_Infant_Free_School_Meal_policy.pdf

20. Harwood E. Discretion, dignity and choice : free school meals. *Poverty.* 2021;169:15-17.

21. Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. *Ymestyn Cymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yng Nghymru: Papur Briffio i Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol yng Nghymru.*; 2020.

22. Ymddiriedolaeth Trussell. *Trussell Trust Data Briefing on End-of-Year Statistics Relating to Use of Food Banks: April 2020 – March 2021.*; 2022. https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2021/04/Trusell-Trust-End-of-Year-stats-data-briefing_2020_21.pdf

23. Holford A, Rabe B. *Going Universal-The Impact of Free School Lunches on Child Body Weight Outcomes.*; 2020. https://www.iser.essex.ac.uk/files/projects/FSM/UIFSM_Bodyweight_Outcomes_20200306.pdf

24. Parnham JC, Chang K, Millett C, et al. The Impact of the Universal Infant Free School Meal Policy on Dietary Quality in English and Scottish Primary School Children: Evaluation of a Natural Experiment. Nutrients. 2022;14(8). doi:10.3390/nu14081602

25. Evans CEL, Greenwood DC, Thomas JD, Cade JE. A cross-sectional survey of children's packed lunches in the UK: Food- and nutrient-based results. *J Epidemiol Community Health.* 2010;64(11):977-983. doi:10.1136/jech.2008.085977

26. Kitchen S, Tanner E, Brown V, Natcen CP, Crawford C, Dearden L. *Evaluation of the Free School Meals Pilot: Impact Report.*; 2013. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/184047/DFE-RR227.pdf

27. *Rhaglen Mesur Plant. Rhaglen Mesur Plant: Tablau Data, 2018-19.*; 2021. https://phw.nhs.wales/services-and-teams/child-measurement-programme/cmp-2020-21/

28. O'Connell R, Knight A, Brannen J. *Living Hand to Mouth: Children and Food in Low -Income Families.* Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant; 2019. Cyrchwyd 14 Mawrth 2022. https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/Living Hand to Mouth full book.pdf

29. Big Bocs Bwyd. https://www.bigbocsbwyd.co.uk/

30. Wilton J, Davies R. *Gwerthusiad o Dechrau'n Deg: Deilliannau Addysgol. Gwerthusiad o Dechrau'n Deg gan Ddefnyddio Setiau Data Presennol.* Llywodraeth Cymru; 2017. https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/flying-start-evaluation-educational-outcomes.pdf

31. Is-adran Plant a Theuluoedd. *Siarad Gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd Iaith a Chyfathrebu.*; 2020. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/talk-with-me.pdf

32. Murphy S, Moore G, Tapper K, et al. Free healthy breakfasts in primary schools: A cluster randomised controlled trial of a policy intervention in Wales, UK. *Public Health Nutr.* 2011;14(2):219-226. doi:10.1017/S1368980010001886

33. Cohen J, Katona C, Bhugra D. National data on suicide must include ethnicity. *BMJ.* 2020;371. doi:10.1136/bmj.m4105

34. Morgan K. *Good Food for All. An IWA Discussion Paper.*

35. Cynnal Cymru. Cyfarfod bord gron ar brydau ysgol am ddim. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2022.

36. Busnes Cymru. Yr Economi Sylfaenol. https://businesswales.gov.wales/foundational-economy

37. Bowman A, Froud J, Haslam C, Johal S, Morgan K, Williams K. *What Can Welsh Government Do to Increase the Number of Grounded SME Firms in Food Processing and Distribution? Contacts for This Report.*; 2021. Ymchwil yr Economi Sylfaenol

38. Unsain. *Arolwg UNSAIN o Staff Arlwyo Ysgolion 2017.*; 2017. https://www.unison.org.uk/content/uploads/2018/01/Schools-Catering-staff-report-1.pdf

39. Llywodraeth Cymru. Gofynion newydd i sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael eu trin yn deg yn dod i rym. https://gov.wales/new-requirements-ensure-care-workers-are-treated-fairly-come-force-0

40. Bennett L. *Health Impact Assessment of the Duration and Timing of School Lunch-Breaks in Cardiff and Vale Maintained Schools.*; 2016.

41. Llywodraeth Cymru. Hawliau plant yng Nghymru. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2022. https://gov.wales/childrens-rights-in-wales

42. Addysg Cymru. *Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol: Canllawiau. Dogfen Ganllawiau Rhif: 269/2021.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/framework-on-embedding-a-whole-school-approach-to-emotional-and-mental-well-being.pdf

43. Llywodraeth Cymru. *Cymru: Gwlad lle mae cyfle i chwarae; 2014.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/wales-a-play-friendly-country.pdf

44. Geary K, Awoyemi C, Gracey F. *Gwerthusiad o Beilot Gwaith Chwarae Llwgu yn ystod y Gwyliau 2019.* Llywodraeth Cymru; 2020. https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/holiday-hunger-playworks-pilot-2019-evaluation_0.pdf

45. Llywodraeth Cymru. Welsh Government. Cynnydd tuag at ddatblygu tirwedd caffael newydd yng Nghymru. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2020. https://gov.wales/progress-towards-the-development-of-a-new-procurement-landscape-in-wales-html

46. Arolwg Cenedlaethol Cymru. Rhwyddineb fforddio gofal plant. https://gov.wales/national-survey-wales

47. Arolwg Cenedlaethol Cymru. P'un ai defnyddio gofal plant. https://gov.wales/national-survey-wales

48. Farquharson C, Olorenshaw H. *The Changing Cost of Childcare*. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid; 2022. https://ifs.org.uk/uploads/R210-The-changing-cost-of-childcare.pdf

49. Paull G, La Valle I. *Evaluation of the First Year of the National Rollout of 30 Hours Free Childcare.*; 2018. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/740168/Evaluation_of_national_rollout_of_30_hours_free-childcare.pdf

50. Thomas H, Lane J, Lewis S, Glyn E. *Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg: Ton 3, Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 43/2018.*; 2018. https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-02/evaluation-of-year-4-of-the-childcare-offer.pdf

51. Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Datganiad Ysgrifenedig: Ehangu Cynnig Gofal Plant Cymru. https://gov.wales/written-statement-expansion-childcare-offer-wales

52. Beaufort Research. *First 1,000 Days: Professional Insight – Parenting Support Study.*; 2018.

53. Prif Swyddog Meddygol Cymru. *Adfer ein Hiechyd. Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/chief-medical-officer-annual-report-2021-to-2022_0.pdf

54. O'Connor C, Gray NS, Knowles J, et al. *The Influence of the COVID-19 Pandemic on Mental Well-Being and Psychological Distress: Impact on a Single Country.*; 2020.

55. *Dadansoddiad o ganlyniadau Dechrau'n Deg gan ddefnyddio data sydd wedi'u cysylltu: canfyddiadau sy'n codi.*; 2019. https://gov.wales/analysis-flying-start-outcomes-using-linked-data-emerging-findings-html

56. Cattan S, Conti G, Farquharson C, Ginja R, Pecher M. *The Health Effects of Universal Early Childhood Interventions: Evidence from Sure Start.*; 2021. https://www.nuffieldfoundation.org/wp-content/uploads/2021/08/The-health-effects-of-universal-childhood-interventions-evidence-from-Sure-Start.pdf

57. Wing S, McNaughton A. Developing a Public Health Approach to Supporting Parents. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2022.

58. Tîm Gwerthuso Cenedlaethol Cychwyn Cadarn (NESS). *The Impact of Sure Start Local Programmes on Seven Year Olds and Their Families, Research Report DFE-RR220.*; 2012. http://www.ness.bbk.ac.uk/impact/documents/DFE-RR220.pdf

59. Llywodraeth Cymru. *Dadansoddiad o ganlyniadau Dechrau'n Deg gan ddefnyddio data sydd wedi'u cysylltu: gofal plant ac asesiadau sylfaenol y Cyfnod Sylfaen.*; 2021. https://gov.wales/analysis-flying-start-outcomes-using-linked-data-childcare-and-foundation-phase-baseline-assessments-html

60. *Dadansoddiad o ganlyniadau Dechrau'n Deg gan ddefnyddio data sydd wedi'u cysylltu: dadansoddiad gofal plant, Adroddiad Ymchwil Rhif 58/2019.*; 2019. https://gov.wales/analysis-flying-start-outcomes-using-linked-data-childcare-analysis-html

61. Crocker S, Thomas H, Spyropoulos N, et al. *Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru.*; 2018. https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/180110-review-childcare-sector-en.pdf

62. Stedman S, Lewis S. Early Years Survey.; 2022. https://www.cwlwm.org.uk/our-work/reports

Llywodraeth Cymru. Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru: Canllawiau. Cyhoeddwyd ar-lein yn 2022.

64. Humphreys C, Healthcote-Elliiot C. *Cyfranogi mewn Gwaith Teg ar gyfer Iechyd, Llesiant a Thegwch, Adroddiad ar Ganfyddiadau›r Panel Arbenigol.*; 2022. https://phw.nhs.wales/services-and-teams/wider-determinants-of-health-unit/fair-work-for-health-well-being-and-equity/resources/expert-panel-report/

65. Cynghrair y Blynyddoedd Cynnar. *Breaking Point. The Impact of Recruitment and Retention Challenges on the Early Years Sector in England.*; 2021. https://www.eyalliance.org.uk/sites/default/files/breaking_point_report_early_years_alliance_2_december_2021.pdf

66. Cynghrair y Blynyddoedd Cynnar. England, Early years provider and places change 2017-22. Data provided by Early Years Alliance based on analysis of OFSTED data 2017-22 and Indices of Multiple Deprivation, 2019.

67. Green L, Edmonds N, Morgan L, et al. *Goblygiadau Iechyd Cyhoeddus Brexit yng Nghymru: Dull Asesu Effaith ar Iechyd.*; 2019. https://phw.nhs.wales/services-and-teams/policy-and-international-health-who-collaborating-centre-on-investment-for-health-well-being/publications-and-resources-bucket/implications-of-brexit-main-findings-report-english-only/

68. Naumann I, McLean C, Koslowski A, Tisdall K, Lloyd E. *Early Childhood Education and Care Provision: International Review of Policy, Delivery and Funding.*; 2013. https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/research-and-analysis/2013/06/early-childhood-education-care-provision-international-review-policy-delivery-funding/documents/early-childhood-education-care-provision-international-review